# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Arweiniad i Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Helen Finlayson
Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8705
Ffacs: 029 2089 8117
e-bost: Helen.Finlayson@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Arweiniad i Gomisiwn Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

# Cynnwys

Cynnwys ........ 4

Rhagair ........ 7

1. Cyflwyniad i Gomisiwn y Cynulliad ........ 8

    Darpariaethau statudol ........ 8

    Rôl y Comisiwn ........ 9

    Aelodau'r Comisiwn ........ 10

    Swyddogion y Comisiwn ........ 10

        Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ........ 10

        Cyngor annibynnol ........ 11

    Y Comisiwn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 12

    Pwerau rheoli wrth gefn y Cynulliad dros y Comisiwn ........ 12

2. Swyddogaethau'r Comisiwn ........ 14

    Y Cyd-destun ........ 14

    Swyddogaethau'r Comisiwn ........ 14

        Darparu eiddo, staff a gwasanaethau ........ 14

        Penderfynu cyflogau a lwfansau Aelodau ........ 16

        Hybu ymwybyddiaeth o'r system ethol a llywodraeth ddatganoledig ........ 17

3. Egwyddorion gweithredu'r Comisiwn ........ 19

        Penderfynu cydsyniol ........ 20

        Dirprwyo swyddogaethau ........ 20

        Cyngor y Swyddog Cyfrifyddu i'r Comisiynwyr ........ 22

    Egwyddorion gweithredu ........ 23

        Egwyddorion gweithredu cyffredin ........ 24

        Egwyddorion llywodraethu corfforaethol ........ 25

        Egwyddorion gweithredu statudol ........ 33

4. Comisiynwyr y Cynulliad ........ 37

        Meysydd cyfrifoldeb y Comisiynwyr ........ 37

    Penodi Comisiynwyr ........ 38

Cyfnodau swydd ........ 39
Y Llywydd ........ 39
Comisiynwyr eraill ........ 39
Diswyddo neu ymddiswyddo ........ 40
Cyfrifoldebau Comisiynydd ........ 41
Egwyddorion cyffredin ........ 41
Ymddygiad Comisiynwyr ........ 42
Y berthynas ag aelodaeth o'r Cynulliad ........ 42
Gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus ........ 42
Y dull cyffredinol o drafod cyfrifoldebau Comisiynwyr ........ 43
Cyfrifoldebau ar y cyd ........ 43
Cyfrifoldebau unigol ........ 44
5. Busnes a gweithdrefnau'r Comisiwn ........ 46
Gweithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn ........ 46
Cyfarfodydd ........ 46
Rheoleidd-dra cyfarfodydd ........ 46
Gohirio cyfarfodydd ........ 46
Cyfarfodydd arbennig ........ 46
Cadeirydd ........ 47
Cworwm ........ 47
Ymbresenoli ........ 48
Papurau ........ 48
Agenda ........ 49
Cofnodion ........ 49
Penderfyniadau a phleidleisio ........ 50
Datgelu buddiant ........ 50
Cynigion ........ 51
Delio ag eitemau drwy ohebu ........ 51
Diwygio gweithdrefnau ........ 52
Atebolrwydd i'r Cynulliad ........ 52
Y Cyfarfod Llawn ........ 53

Pwyllgorau ............................................................................ 55
Mecanweithiau atebolrwydd ysgrifenedig ................................... 56
Cynigion cyfarwyddo ................................................................. 56
Pwerau deddfwriaethol ................................................................ 58
Mesurau'r Cynulliad..................................................................... 58
Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol ............................... 58
Atodiad A – Egwyddorion llywodraethu Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a darpariaethau ategol .................................. 59
Atodiad B – Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Rhoddion a Lletygarwch.................................................................. 66
Atodiad C – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus ('egwyddorion Nolan') ............................................................................................... 74

## Rhagair

Mae'r Cynulliad a'r Comisiwn yn cynrychioli dwy ffrwd benodol o waith ein corff seneddol sydd hefyd yn ategu'i gilydd. Mae'r Cynulliad yn cynrychioli ewyllys gwleidyddol etholwyr Cymru. Mae ei fandad yn cael ei benderfynu gan bobl Cymru drwy'r blwch pleidleisio.

Er mai Aelodau'r Cynulliad yw aelodau'r Comisiwn, y mae'n cael ei fandad gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 - cyfansoddiad Cymru - ac, felly, gan y gymuned gyfan. Rhoddwyd y pwerau cyfreithiol i'r Comisiwn, a rhoddwyd y dyletswyddau cyfreithiol arno, sy'n angenrheidiol i'w alluogi i sicrhau y gall y Cynulliad fel sefydliad weithredu ar ran Cymru'n effeithiol. Oherwydd bod gan y Comisiwn (yn wahanol i'r Cynulliad) fodolaeth barhaol a pharhaus, gall gynllunio ar gyfer datblygiad hirdymor y Cynulliad fel sefydliad. Mae hyn yn gaffaeliad aruthrol, ond y mae'n golygu bod ganddo gyfrifoldebau mawr. Gall olygu weithiau fod yn rhaid i'r Comisiwn a'i staff wneud penderfyniadau anodd sydd weithiau'n amhoblogaidd, ond byddem yn methu yn ein dyletswydd pe byddem yn osgoi gwneud hynny pan fydd yr angen yn codi.

Lluniwyd y canllawiau hyn i adlewyrchu'r arferion presennol a'r Rheolau Sefydlog, ac i weithredu fel un ffynhonnell wybodaeth ar rôl, cyfansoddiad, swyddogaeth a chyfrifoldebau Comisiwn y Cynulliad. Rwyf yn gobeithio y bydd yn gam ymlaen wrth helpu Aelodau'r Cynulliad, staff y Cynulliad, y cyfryngau a'r cyhoedd yng Nghymru i ddeall rôl y Comisiwn yn well, ac felly i gynorthwyo'r Comisiwn i weithredu'r cyfrifoldebau sy'n ddyledus i bobl Cymru a datblygiad parhaus y Cynulliad.

**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

# 1. Cyflwyniad i Gomisiwn y Cynulliad

1. Crëwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Comisiwn”) gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Ei brif swyddogaeth statudol yw darparu Cynulliad Cenedlaethol Cymru â’r staff, eiddo a gwasanaethau sy’n ofynnol i gyflawni ei waith.

2. Mae’r Comisiwn yn cynnwys Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a phedwar Aelod Cynulliad arall, un wedi’i enwebu gan bob un o’r pedwar grŵp plaid sydd wedi’u cynrychioli yn y Cynulliad.

**Darpariaethau statudol**

3. Crëwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wreiddiol gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* yn “gorff corfforaethol” ac iddo gyfrifoldeb dros arfer swyddogaethau seneddol yn ogystal â rhai llywodraethol. Gan ei fod yn gorff corfforaethol roedd yn dal i fodoli, yn ôl y gyfraith, hyd yn oed yn ystod ymgyrch etholiad – nid oedd y Cynulliad yn cael ei ddiddymu ac roedd Aelodau’n aros yn eu swydd hyd at ddyddiad yr etholiad.

4. Drwy *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (“y Ddeddf”) cafodd y ddwy rôl (seneddol a llywodraethol) eu gwahanu’n ffurfiol a chrëwyd endidau cyfreithiol ar wahân i’w cyflawni: Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cymru) i arfer swyddogaethau llywodraethol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i arfer swyddogaethau seneddol gan gynnwys deddfu a chraffu ar Lywodraeth Cymru.

5. Nid yw’r Cynulliad fel y mae wedi’i ailgyfansoddi’n gorff corfforaethol ond yn hytrach yn gymdeithas anghorfforedig o 60 o Aelodau a gaiff ei ddiddymu ychydig o wythnosau cyn pob etholiad Cynulliad a’i hailgynnull ar ôl dychwelyd yr Aelodau newydd sydd wedi’u hethol. Oherwydd hynny, nid yw’r Cynulliad yn gorff parhaol, di-dor ac, felly, er enghraifft, nid yw’n gallu gwneud contractau hirdymor neu fod yn berchen ar eiddo. Felly gwnaeth Deddf 2006 greu’r Comisiwn fel endid cyfreithiol parhaol sy’n gallu gwneud y contractau hirdymor, penodi’r staff a bod yn berchen ar yr eiddo y mae eu hangen er mwyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru arfer ei swyddogaethau.

**Rôl y Comisiwn**

6. Dyletswydd y Comisiwn dan y Ddeddf yw darparu'r eiddo, staff a gwasanaethau sy'n ofynnol at ddibenion y Cynulliad.[1] Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mai cyfrifoldeb y Comisiwn yw:

- caffael, dal neu gael gwared ar unrhyw eiddo ar ran y Cynulliad;
- gwneud trefniadau i dalu Aelodau a darparu eu pensiynau a lwfansau ac i gyflogi staff y Cynulliad; a
- gweithredu mewn modd priodol ac angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen er mwyn i'r Cynulliad wneud ei waith.

7. Mae Atodlen 2 i'r Ddeddf yn caniatáu i'r Comisiwn hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r system etholiadol bresennol ar gyfer y Cynulliad neu un arfaethedig.[2] Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Comisiwn i hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus o system bresennol llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru neu unrhyw un sydd yn yr arfaeth.[3] Mae'r Ddeddf yn caniatáu i hyn ddigwydd drwy ddefnyddio rhaglenni addysg neu wybodaeth a thrwy ddarparu grantiau i gyrff neu bersonau eraill i gyflawni rhaglenni o'r fath.[4]

8. Ar ôl pob blwyddyn ariannol, rhaid i Gomisiwn y Cynulliad gyhoeddi adroddiad blynyddol[5]. Rhaid i'r adroddiad hwn ddisgrifio sut mae'r Comisiwn wedi cyflawni ei rôl ac wedi arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol, a rhaid ei osod gerbron y Cynulliad. Mae Adroddiadau Blynyddol blaenorol ar gael yn www.cynulliadcymru.org. Mae hefyd yn ofynnol i'r Comisiwn gynhyrchu cyfrifon blynyddol i'w harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yr arfer yw cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon fel un ddogfen.

9. Mae gwybodaeth fanwl am rôl y Comisiwn ym Mhennod 2 o'r Arweiniad hwn.

---

[1] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), adran 27(5)
[2] Ibid, Atodlen 2 para 5
[3] Ibid
[4] Ibid
[5] Ibid, Atodlen 2 para 9

## Aelodau'r Comisiwn

10. Yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf, mae'r Comisiwn yn cynnwys Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a phedwar Aelod arall wedi'u penodi gan y Cynulliad.

11. Mae'r Llywydd yn aelod o'r Comisiwn yn rhinwedd ei rôl fel Llywydd y Cynulliad.[6] Mae Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer enwebu pedwar Aelod arall yn aelodau o'r Comisiwn, o'r pedwar grŵp gwleidyddol mwyaf sydd wedi'u cynrychioli yn y Cynulliad.

12. Mae gwybodaeth fanwl am drefniadau ar gyfer penodi Comisiynwyr ac am eu cyfrifoldebau penodol ym Mhennod 4 o'r Arweiniad hwn.

## Swyddogion y Comisiwn

13. Un o swyddogaethau pwysicaf y Comisiwn yw cyflogi 'staff y Cynulliad'. Mae'r swyddogion hyn yn darparu cymorth i'r Comisiwn ei hun a hefyd, yn unol â'r trefniadau sydd wedi'u gwneud gan y Comisiwn, i'r Cynulliad.

14. Wrth gynorthwyo'r Comisiwn, rhai o brif gyfrifoldebau'r swyddogion yw:

- cynghori'r Comisiynwyr ynghylch y gwahanol ddyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy;
- eu hysbysu am yr angen i sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra ariannol; a
- darparu'r cymorth gweinyddol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r penderfyniadau y mae'r Comisiwn wedi'u gwneud.

### *Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad*

15. Mae Clerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn Brif Weithredwr y Comisiwn ac yn atebol i'r Comisiwn am gyflenwi gwasanaethau a ddarperir i'r Comisiwn a'r Cynulliad mewn modd effeithiol.

---

[6] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), adran 27(2)(a)

16. Dan y Ddeddf, mae Clerc y Cynulliad hefyd yn Brif Swyddog Cyfrifyddu i'r Comisiwn. Mae gan y Swyddog Cyfrifyddu gyfrifoldeb personol hefyd dros sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario'n unol ag egwyddorion 'rheoleidd-dra', 'priodoldeb' a 'gwerth am arian'. Ystyr rheoleidd-dra yw bod trafodion ariannol yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli gan gynnwys deddfau a rheoliadau a Chynigion ynghylch Cyllideb y Cynulliad; mae priodoldeb yn ymwneud â chynnal busnes cyhoeddus yn briodol; ac mae gwerth am arian yn golygu sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

### *Cyngor annibynnol*

17. Er mwyn sicrhau bod Comisiynwyr ac uwch swyddogion yn gallu elwa o ystod eang o brofiad i'w helpu i gyflawni swyddogaethau'r Comisiwn, mae'r Comisiwn wedi penodi cynghorwyr annibynnol i weithredu mewn cymhwyster anweithredol annibynnol.

18. Disgwylir i'r cynghorwyr annibynnol gynnig her adeiladol ym mhob rhan o fusnes y Comisiwn gyda'r bwriad o sicrhau bod craffu ar bob agwedd ar strategaeth a chyflawniad o safbwynt effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Maent yn cyfrannu at fonitro perfformiad a chynnydd y corff, gan gynnwys y defnydd o adnoddau dynol ac ariannol, ac yn dal trosolwg beirniadol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol y corff.

19. Penodwyd cynghorwyr annibynnol presennol y Comisiwn ym mis Tachwedd 2007 am gyfnod o dair blynedd:

**Blwch 1: Cynghorwyr annibynnol y Comisiwn**

**Mair Barnes**
Mae Mair Barnes yn dal nifer o gyfarwyddiaethau anweithredol ac mae'n gyn Gadeirydd i Vantios ccc ac yn gyn reolwr gyfarwyddwr ar Woolworths ccc. Mae wedi dal cyfarwyddiaethau anweithredol yn yr Adran Masnach a Diwydiant a Swyddfa'r Cabinet.

**Tim Knighton**
Ar hyn o bryd mae Tim Knighton yn Gyfarwyddwr Cyflenwi Atebion Busnes yn Nhŷ'r Cwmnïau. Cyn dod i Dŷ'r Cwmnïau yn 2007 fel Cyfarwyddwr Cyllid, treuliodd Tim ddeng mlynedd gyda Tesco ccc mewn amryw o rolau cyllid, gan ddal cyfrifoldeb yn olaf am ei weithrediad gwasanaethau ar y cyd yn y DU. Cyn hyn roedd yn Gyfarwyddwr Gweithredol gyda Goldman Sachs

yn ei Is-adran Marchnad Gyfalaf.

**Richard Calvert**
Ailymunodd Richard â'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol yn Awst 2009 fel Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Gyllid a Pherfformiad Corfforaethol ar ôl bod am ddwy flynedd a hanner yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd, lle'r oedd yn dal swydd Cyfarwyddwr Strategaeth ac Adnoddau. Y rôl olaf a oedd gan Richard yn yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol, cyn mynd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, oedd Cyfarwyddwr Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol. Mae Richard yn Gyfrifydd Rheoli cymwysedig, ac mae wedi cyflawni nifer o rolau anweithredol yn y sector cyhoeddus.

**Yr Athro Robert Pickard**
Mae'r Athro Robert Pickard wedi dal nifer mawr o benodiadau cyhoeddus, llawer ohonynt ym maes iechyd a lles. Ymysg ei benodiadau presennol, mae'n un o Gymrodyr Cymdeithas Frenhinol Meddygaeth. Mae'n wyddonydd o ran ei gefndir.

### Y Comisiwn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

20. Mae'r Comisiwn yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am arfer ei swyddogaethau. Caiff yr atebolrwydd hwn ei arfer mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys cwestiynau i'r Comisiwn i'w hateb ar lafar ac yn ysgrifenedig, craffu gan y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb y Comisiwn, a'r posibilrwydd o holi Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch materion rheoli ariannol.

21. Lle'r Cynulliad a'i bwyllgorau yw craffu ar stiwardiaeth y Comisiwn a'i fodloni ei hun bod y Comisiwn yn gweithredu'n ddoeth ac yn gyfrifol. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, bydd angen i'r Cynulliad gofio bod y disgresiwn o ran y modd i gyflawni'r ddyletswydd o ddarparu'r Cynulliad â'r eiddo, staff a gwasanaethau angenrheidiol wedi'i ymddiried gan y Ddeddf i'r Comisiwn a'i fod dan arolygiaeth ariannol Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

22. Mae gwybodaeth fanwl am drefniadau i ddwyn y Comisiwn i gyfrif ym Mhennod 5 o'r arweiniad hwn.

### Pwerau rheoli wrth gefn y Cynulliad dros y Comisiwn

23. Er bod rôl a swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad wedi'u disgrifio yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006,* mae'r Ddeddf a Rheolau Sefydlog

Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn rhoi dau bŵer rheoli wrth gefn i'r Cynulliad dros y Comisiwn.

24. Yn gyntaf, caiff y Cynulliad, drwy gynnig, roi cyfarwyddiadau arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn mewn cysylltiad â swyddogaethau'r Comisiwn.[7] Gallai'r rhain fynnu bod y Comisiwn yn cymryd camau gweithredu penodol er na allent fynnu bod y Comisiwn yn gweithredu'n anghyfreithlon (er enghraifft, mewn modd a oedd yn groes i Gyfraith Ewrop).

25. Yn ail, caiff y Cynulliad, drwy gynnig, ddiswyddo pob un neu unrhyw un o'r Comisiynwyr presennol (heblaw'r Llywydd, a fydd yn aelod o'r Comisiwn cyhyd ag y bydd yn dal y swydd honno).[8] Ar wahân i hynny, caiff y Cynulliad ddiswyddo'r Llywydd drwy gynnig o ddiffyg hyder ac, os bydd hynny'n digwydd, bydd hefyd yn peidio â bod yn Gomisiynydd.

26. Mae gwybodaeth fanwl am gynigion i roi cyfarwyddiadau arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn a chynigion yn cynnig diswyddo Comisiynydd/Comisiynwyr ym Mhennod 5.

[7] Rheol Sefydlog 3.10
[8] Rheol Sefydlog 3.8

# 2. Swyddogaethau'r Comisiwn

**Y Cyd-destun**

27. Prif rôl y Comisiwn yw darparu'r Cynulliad â'r eiddo, staff a gwasanaethau y mae eu hangen er mwyn galluogi'r Cynulliad i weithredu. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer arfer swyddogaethau eraill gan y Comisiwn – er enghraifft, talu cyflogau, lwfansau a phensiynau'r Aelodau, a hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r system etholiadol ac o'r system llywodraeth ddatganoledig.

**Swyddogaethau'r Comisiwn**

***Darparu eiddo, staff a gwasanaethau***

*Eiddo*

28. Yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf, caiff y Cynulliad gaffael, dal a chael gwared ar eiddo.[9]

29. Mae gan Gomisiwn y Cynulliad bortffolio bach ond tra phwysig ac amrywiol o adeiladau a ddefnyddir i gynnal busnes a gweithrediadau'r Cynulliad. Mae'r stad wedi'i rhannu rhwng Bae Caerdydd, lle mae'r Cynulliad yn eistedd, a swyddfa fach yn y gogledd ym Mae Colwyn. Nid oes dim yn stad y Cynulliad sy'n cael ei ddal gan y Comisiwn dan berchnogaeth rydd-ddaliadol.

30. Mae'r Senedd yn adeilad seneddol eiconig o'r radd flaenaf sy'n cynnwys y dechnoleg gynaliadwy ddiweddaraf ac yn atyniad pwysig i ymwelwyr ac yn fan i gynnal digwyddiadau.

31. Tŷ Hywel yw adeilad swyddfeydd y Cynulliad sydd ag ystafelloedd o natur fwy ymarferol, ond mae hefyd yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan y cyhoedd, yn enwedig Siambr Hywel, prif gyfleuster addysg a chynadledda'r Cynulliad. Mae rhannau o Dŷ Hywel wedi'u his-osod i Lywodraeth Cymru, y BBC a HTV/ITV.

32. Mae Adeilad y Pierhead yn adeilad rhestredig graddfa un, yn dirnod ym Mae Caerdydd ac iddo hanes nodedig a photensial aruthrol ar gyfer y dyfodol fel atyniad i ddigwyddiadau ac i ymwelwyr ac fel cyfleuster ar gyfer cynnwys y cyhoedd yng ngwaith y Cynulliad.

---

[9] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), Atodlen 2 para 2

33. Mae'r adeilad ym Mae Colwyn yn cynnwys swyddfeydd ar gyfer allgymorth a staff y switsfwrdd a'r llinell archebu a chyfleuster ar gyfer cyfarfodydd.

| **Blwch 2: Adeiladau Comisiwn y Cynulliad** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Math | Defnydd | Tymor a Deiliadaeth | Arwynebedd mewnol gros $m^2$ | Rhent blynyddol £ | Costau Rhedeg Blynyddol £ |
| **Y Senedd** | | | | | |
| Adeilad Seneddol Eiconig | Busnes y Cynulliad, Ymgysylltu â'r cyhoedd | 150 mlynedd Lesddaliad | 3.710 | Amherthnasol | 785,776 |
| **Tŷ Hywel** | | | | | |
| Swyddfa | Pencadlys | 25 mlynedd Lesddaliad | 11,648 | 2,069,559 | 4,143,643 (yn cynnwys rhent) |
| **Adeilad y Pierhead** | | | | | |
| Adeilad tirnod | Cyfleuster arddangos, cynadledda a digwyddiadau a swyddfeydd | 150 mlynedd Lesddaliad | 1,116 | Amherthnasol | 209,997 |
| **Adeilad Bae Colwyn** | | | | | |
| Swyddfa | Swyddfa Ranbarthol | 10 mlynedd Lesddaliad | 230 | 39,929 | 128,626 (yn cynnwys rhent) |

34. Mae asedau'r adeiladau hyn yn rhoi'r cyfleusterau ffisegol hanfodol a'r amgylchedd gweithio i gynnal busnes a gweithrediadau'r Cynulliad yn effeithiol ac effeithlon.

*Staff*

35. Caiff y Comisiwn benodi aelodau o staff y Cynulliad[10] sy'n cael eu galw'n "staff y Cynulliad" yn yr arweiniad hwn.

36. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau:

- bod gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a dethol staff yn gyson at ei gilydd â'r rheini ar gyfer recriwtio staff Llywodraeth Cymru; a
- bod telerau ac amodau cyflogaeth yr aelodau o staff y Cynulliad yn gyson at ei gilydd â'r rheini ar gyfer staff Llywodraeth Cymru.[11]

37. Mae hefyd yn ddyletswydd ar y Comisiwn dalu cyflogau a threuliau staff y Cynulliad a gwneud trefniadau ar gyfer talu pensiynau, arian rhodd neu lwfansau i unrhyw un, neu mewn cysylltiad ag unrhyw un, sydd wedi peidio â bod yn aelod o staff y Cynulliad.

*Gwasanaethau*

38. Yn nhrefn arferol pethau, bydd angen i'r Comisiwn gaffael amryw o nwyddau a gwasanaethau i alluogi'r Cynulliad i weithredu. Bydd nwyddau a gwasanaethau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, gwasanaethau TGCh, hyfforddi, glanhau ac amryw o gynghorwyr ar gyfer pwyllgorau a gwaith ymgynghori.

### ***Penderfynu cyflogau a lwfansau Aelodau***

39. O 2011, caiff cyflogau Aelodau a chostau eraill eu penderfynu gan y Bwrdd Taliadau, a sefydlir dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Tâl) 2010. Bydd y Bwrdd Taliadau yn gweithredu mewn modd agored a thryloyw, gan gyhoeddi adroddiadau blynyddol am ei waith a gosod cyflogau Aelodau cyn pob etholiad Cynulliad ar gyfer tymor pedair blynedd y Cynulliad. Bydd y Bwrdd hefyd yn gweithredu'n hollol annibynnol ar y Cynulliad ac ni fydd Aelodau'n chwarae unrhyw ran yn ei weithrediad. Bydd y Bwrdd Taliadau yn gyfrifol am dâl a lwfansau Aelodau, trefniadau ar gyfer cyflogi staff cymorth a'r holl gostau tebyg a chysylltiedig.

---

[10] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), Atodlen 2 para 3(1)
[11] Ibid, Atodlen 2 para 3(4)

***Hybu ymwybyddiaeth o'r system ethol a llywodraeth ddatganoledig***

40. Yn unol â'r Ddeddf, caiff y Comisiwn hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus o:

- y system bresennol neu unrhyw system arfaethedig ar gyfer ethol Aelodau'r Cynulliad; a
- y system bresennol neu unrhyw system arfaethedig o lywodraeth ddatganoledig yng Nghymru.[12]

41. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Comisiwn arfer ei bŵer yn y maes hwn fel y gwêl orau. Mae'n nodi, er hynny, y caiff y Comisiwn, yn benodol, gyflawni rhaglenni addysg neu wybodaeth i hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus neu wneud grantiau i bersonau neu gyrff eraill er mwyn eu galluogi i gyflawni rhaglenni o'r fath.[13]

42. Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i'r Comisiwn ddarparu cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol er mwyn hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus o etholiadau Cynulliad a'r system llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru. Cytunodd y Comisiwn ar 20 Mehefin 2007 fod awdurdodi gwariant o'r math hwn yn swyddogaeth na ddylid ei dirprwyo. (Mae mwy o wybodaeth am hyn yn yr adran isod am ddirprwyo.)

43. Mae gan y Cynulliad Reolwyr Allgymorth a Chydgysylltu wedi'u lleoli ledled Cymru, sydd â'r rôl o greu, cynnal a datblygu dull egnïol a bywiog, ar lefel leol a rhanbarthol, o hybu cyfranogiad democrataidd. Mae'r Rheolwyr Allgymorth a Chydgysylltu yn creu partneriaethau strategol â grwpiau lleol allweddol i wella eu dealltwriaeth a chynyddu eu hymgysylltu â'r Cynulliad.

44. Pwrpas bws Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol, sydd â'i ganolfan yn y gogledd, yw cynyddu ac ehangu cyfranogiad mewn democratiaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r bws yn mynd â gwaith pwyllgorau'r Cynulliad at bobl ym mhob rhan o Gymru, gan eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth fideo ar gyfer ymchwiliadau gan bwyllgorau. Mae hyn yn fodd i hwyluso mewnbwn ehangach o lawer

[12] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), Atodlen 2(5)(1)
[13] Ibid, Atodlen 2(5)(3)

gan y cyhoedd i fusnes y Cynulliad ac yn caniatáu i bobl ddylanwadu’n uniongyrchol yn eu hardaloedd ar bolisïau’r Cynulliad.

## 3. Egwyddorion gweithredu'r Comisiwn

45. Cytunodd y Comisiwn ar y pwrpas, nodau a gwerthoedd canlynol i arwain ei waith a gwaith staff y Cynulliad yn ystod cyfnod y Trydydd Cynulliad (2007-11).

| Blwch 3: Pwrpas, nodau a gwerthoedd |
|---|
| **Ein nodau**<br><br>**Byddwn yn hybu ac yn ehangu'r ymgysylltu â datganoli**<br>Rhaid dangos yn y pedair blynedd nesaf fod y Cynulliad yn gweithio dros bob dinesydd ac yn hybu cyfranogiad ehangach a mwy gweithredol yn y broses ddemocrataidd. Byddwn yn pwysleisio effaith gadarnhaol y Cynulliad ar fywydau pobl yng Nghymru. Bydd mwy o ddatganoli fesul cam drwy Ddeddf 2006, ac efallai y bydd refferendwm ar gyfer cymhwysedd deddfwriaethol ehangach. Byddwn yn barod i ymateb yn frwdfrydig i'r heriau hyn.<br><br>**Byddwn yn dangos undod, arweinyddiaeth ac ymateb eofn i newid cyfansoddiadol**<br>Bydd y Cynulliad yn dangos hyder a chymhwysedd wrth ymgymryd â'i bwerau newydd. Rydym yn gytûn o ran sicrhau craffu a deddfu o'r ansawdd gorau, ac o ran cynorthwyo Aelodau ym mhob agwedd o'u gwaith fel cynrychiolwyr etholedig.<br><br>**Ym mhob agwedd o'n gwaith, byddwn yn dangos parch, uniondeb a llywodraethu da**<br>Rhaid i'n holl waith fod yn agored i graffu manwl o'r tu allan, bod yn dryloyw a dylai adlewyrchu natur amrywiol Cymru a'i hieithoedd yn y modd y mae'n delio â'r dinesydd ac yn ei gynnwys.<br><br>**Byddwn yn gweithio mewn modd cynaliadwy**<br>Byddwn yn dangos arweinyddiaeth yn y modd yr ydym yn rheoli ein gwaith a'n stad, a'n nod yw darparu'r lefel uchaf posibl o gynaliadwyedd yn y ddau.<br><br>**Byddwn yn sicrhau y caiff y Cynulliad y gwasanaeth gorau, wedi'i ddarparu yn y ffordd fwyaf effeithiol**<br>Byddwn yn codi ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i Aelodau a phobl Cymru i lefel uwch, gan ddangos defnydd doeth ac effeithiol o'i adnoddau a gwerth am arian. Bydd ethos gwasanaethu, ar gyfer Aelodau ac unrhyw un sy'n ymwneud â'r Cynulliad, yn ysgogi pob agwedd ar ein gwaith. |

**Ein gwerthoedd**
Mae Comisiwn y Cynulliad a'i staff:

- yn gweithredu bob amser er y budd gorau i'r Cynulliad;
- yn dal at safonau uchel ac yn cyflawni ein bwriadau;
- yn broffesiynol ac yn arloesol;
- yn gweithio'n agored ac yn gydweithredol;
- yn dangos parch at bawb.

### *Penderfynu cydsyniol*

46. Wrth iddo wneud penderfyniadau, mae disgwyl i'r Comisiwn, fel pob corff tebyg, geisio dod i gonsensws. Os bydd gwahaniaeth barn ymysg ei bum Aelod, ceir gwneud penderfyniadau ar sail mwyafrif syml.[14]

### *Dirprwyo swyddogaethau*

47. Yn unol ag Atodlen 2 i'r Ddeddf, caiff y Comisiynwyr ar y cyd ddirprwyo unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn i'r Llywydd neu'r Clerc.[15] Dim ond yn y modd hwn y ceir dirprwyo swyddogaethau er y gallai'r Comisiwn, mewn egwyddor, sefydlu pwyllgor i weithredu mewn cymhwyster cynghorol pe byddai'n dymuno cyfeirio mater i'w ystyried. Ni fyddai pwyllgor o'r fath yn gallu gwneud penderfyniadau ond gallai roi argymhellion i'r Comisiwn. Lle y caiff materion eu cyfeirio at bwyllgor i'w hystyried, dylai pwyllgor o'r fath gael ei gadeirio gan Gomisiynydd a dylai'r holl Gomisiynwyr sicrhau eu bod yn cael adborth digonol am waith y pwyllgor.[16]

48. Lle y mae swyddogaethau wedi'u dirprwyo i'r Llywydd neu'r Clerc, bydd y Comisiynwyr yn dal yn atebol yn y pen draw i'r Cynulliad am unrhyw benderfyniadau a wneir.[17] Lle y mae Comisiynwyr yn dirprwyo

---

[14] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rhai Cwestiynau ac Atebion ynglŷn â Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Gorffennaf 2008
[15] Ibid, Atodlen 2 para 7
[16] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Egwyddorion Llywodraethu a Darpariaethau Ategol*, 20 Mehefin 2007
[17] Ibid

awdurdod i'r Prif Weithredwr rhaid cael diffiniad ysgrifenedig clir o'r dirprwyo ar y cyfrifoldebau hynny.[18]

*Y Prif Weithredwr a'r Clerc*

49. Yn ystod cyfarfod cyntaf y Comisiwn ym Mehefin 2007, cytunodd y Comisiwn, yn unol â'r Ddeddf, i ddirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a'r amodau sydd wedi'u nodi isod. Fodd bynnag, nid yw'r dirprwyo ar y swyddogaethau sydd wedi'u rhestru isod yn rhwystro'r Comisiwn rhag arfer y swyddogaethau hynny sydd wedi'u dirprwyo. Dan Adran 26(4) o'r Ddeddf, caiff y Prif Weithredwr a'r Clerc, yn ei dro, awdurdodi aelod o'r staff i arfer y swyddogaethau hynny.

*Eithriadau i swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo*

50. Yn unol â'r cytundeb a wnaeth y Comisiwn ar 20 Mehefin 2007, mae'r materion canlynol **wedi'u heithrio ar hyn o bryd o'r dirprwyo** ar swyddogaethau'r Comisiwn i'r Prif Weithredwr a'r Clerc:

- penodi, telerau ac amodau a chydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr a'r Clerc, cynghorwyr anweithredol y Comisiwn ac aelodau o Bwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad;

- materion sy'n ymwneud â phennu cydnabyddiaeth ariannol i Aelodau'r Cynulliad ac aelodau o Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi'u rhoi i'r Comisiwn gan y Rheolau Sefydlog; ac

- awdurdodi gwariant dan atodlen 2(6) i'r Ddeddf (darparu cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol).

*Materion sydd wedi'u dirprwyo sy'n galw am ymgynghori*

51. Yn unol â'r cytundeb a wnaeth y Comisiwn ar 20 Mehefin 2007 ynghylch arfer ei swyddogaethau a'i reolaeth, rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn cyn:

[18] Ibid

- gwneud penodiadau i swyddi'r Prif Swyddog Gweithredu, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
- newid cydnabyddiaeth ariannol a thelerau ac amodau'r staff yn y swyddi hynny;
- creu swyddi cyfarwyddwr newydd neu ddileu swyddi cyfarwyddwr sy'n bod;
- awdurdodi caffael neu gael gwared ar dir ac adeiladau;
- awdurdodi prosiectau TG o fwy na £50,000; ac
- awdurdodi gwariant ar faterion y gellid eu hystyried yn newydd neu'n ddadleuol.

*Dirprwyaethau eraill*

52. Mae Adran 26(3) o'r Ddeddf yn caniatáu arfer swyddogaethau'r Clerc gan aelod arall o staff y Cynulliad (neu berson sydd wedi'i secondio i weithio yn y Cynulliad) sydd wedi'i awdurdodi gan Gomisiwn y Cynulliad os yw swydd y Clerc yn wag neu os yw'r Clerc am unrhyw reswm yn analluog i weithredu.[19] Yn unol â'r ddarpariaeth hon, cytunodd y Comisiwn ar 20 Mehefin 2007 i awdurdodi'r Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Busnes y Cynulliad i arfer swyddogaethau'r Clerc mewn amgylchiadau o'r fath.

### *Cyngor y Swyddog Cyfrifyddu i'r Comisiynwyr*

53. Mae cyfrifoldeb penodol gan y Prif Weithredwr a'r Clerc, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, i sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei gynnig i'r Comisiynwyr ar bob mater sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol ac yn fwy cyffredinol ynghylch yr holl ystyriaethau o ran gweinyddu doeth a darbodus, effeithlonrwydd ac effeithioldeb.

54. Os yw'r Comisiynwyr yn ystyried cymryd camau sy'n cynnwys trafodiad a fyddai ym marn y Swyddog Cyfrifyddu yn groes i'r gofynion o ran priodoldeb neu reoleidd-dra, rhaid iddo nodi mewn llythyr ei wrthwynebiadau i'r bwriad, y rhesymau dros y gwrthwynebiadau hynny a'i ddyletswydd i hysbysu Archwilydd Cyffredinol Cymru os gwrthodir y cyngor. Os bydd y Comisiynwyr yn penderfynu mynd ymlaen, er

[19] Deddf Llywodraeth Cymru (c.32), adran 26(3)

gwaethaf hynny, dylai'r Swyddog Cyfrifyddu geisio cyfarwyddyd ysgrifenedig i gymryd y cam gweithredu dan sylw. Ar ôl cael cyfarwyddyd o'r fath, rhaid iddo gydymffurfio ag ef, ond wedyn dylai rannu gwybodaeth am y papurau â'r Archwilydd Cyffredinol heb oedi gormodol.

55. Os oes bwriad i gymryd camau sy'n codi mater nad yw'n ymwneud â phriodoldeb neu reoleidd-dra ffurfiol ond yn gysylltiedig â chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithioldeb, mae'n ddyletswydd arno dynnu'r ffactorau perthnasol i sylw'r Comisiynwyr a'u cynghori ym mha bynnag ffordd y mae'n ei hystyried yn briodol. Gallai ffactorau o'r fath gynnwys asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu arfaethedig a'r effaith a gâi'r rhain ar y gwerth am arian a roddir drwy'r cam gweithredu pe byddai rhai neu'r cwbl o'r rhain yn cael eu gwireddu. Os gwrthodir cyngor y Swyddog Cyfrifyddu a bod y bwriad yn un y byddai'n teimlo'n analluog i'w amddiffyn gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fel un sy'n rhoi gwerth am arian, dylai geisio cyfarwyddyd ysgrifenedig gan y Comisiynwyr cyn mynd ymlaen. Rhaid iddo gydymffurfio â'r cyfarwyddyd wedyn, ond dylai roi gwybod am y cais am y cyfarwyddyd a rhoi gwybod am y cyfarwyddyd ei hun i'r Archwilydd Cyffredinol heb oedi gormodol, yn yr un modd ag achosion sy'n ymwneud â phriodoldeb neu reoleidd-dra.

**Egwyddorion gweithredu**

56. Wrth iddo ymgymryd â'i waith, mae'r Comisiwn yn gorfod dal at nifer o egwyddorion gweithredu sylfaenol. Mae'r egwyddorion hyn yn perthyn i dri maes cyffredinol:

- **egwyddorion gweithredu cyffredin** a gytunwyd rhwng y Comisiwn a'r uwch reolwyr;
- **egwyddorion llywodraethu corfforaethol** a fabwysiadwyd gan y Comisiwn o'i wirfodd yn ei gyfarfod cyntaf yn 2007; ac
- **egwyddorion statudol** – fel y maent wedi'u pennu gan atodlen 2 i'r Ddeddf – y mae'n rhaid arfer swyddogaethau'r Comisiwn yn unol â hwy.

57. Mae disgrifiad manylach o bob un o'r meysydd hyn isod.

### *Egwyddorion gweithredu cyffredin*

58. Yn ei gyfarfod cyntaf ym Mehefin 2007, cytunodd y Comisiwn ar gyfres o egwyddorion cyffredin y bydd ef a'i uwch reolwyr yn dal atynt.[20] Mae'r egwyddorion cyffredin hyn yn dangos y gwerthoedd a'r rheolau y bydd Comisiynwyr ac uwch reolwyr yn dal atynt ar y cyd wrth arfer eu cyfrifoldebau. Eu hamcan yw sicrhau bod y Comisiwn a'r uwch reolwyr yn cydweithio i greu perthynas waith effeithiol er mwyn gwireddu democratiaeth effeithiol yng Nghymru.

*Gwerthoedd a rennir*

59. Mae'r gwerthoedd a rennir sydd wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn a'r uwch reolwyr yn cynnwys yr ymrwymiadau hyn:

- gweithredu bob amser er y budd gorau i'r Cynulliad;
- dal at safonau uchel a chyflawni ei nodau;
- bod yn broffesiynol ac yn arloesol;
- gweithio'n agored ac yn gydweithredol; a
- dangos parch at bawb.

*Rheolau cyffredin*

60. Mae'r rheolau cyffredin a ddilynir gan y Comisiwn a'r uwch reolwyr wrth arfer eu swyddogaethau'n cynnwys y canlynol:

- gwneud penderfyniadau gan lawn ystyried pob barn sydd wedi'i mynegi;
- ymddiried yn ein gilydd i ddal at safbwynt ar ôl cytuno arno;
- gwrando mewn modd priodol ar farn ein gilydd;
- sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel gywir;
- cydweithio gan rannu pob gwybodaeth berthnasol;

---

[20] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Cynnal Busnes Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru* 20 Mehefin 2007

- cynnwys ein gilydd yn ein gwaith mor gynnar ag sy'n bosibl;

- gweld gwerth mewn arloesedd, creadigrwydd ac amrywiaeth; a

- gweithredu'n ddiduedd a chydag uniondeb.

### *Egwyddorion llywodraethu corfforaethol*

61. Wrth ymgymryd â'i rôl a'i swyddogaethau mae'r Comisiwn yn dal at restr o egwyddorion llywodraethu corfforaethol y cytunwyd arni[21]. Cytunodd y Comisiwn ar yr egwyddorion hyn yn ystod ei gyfarfod cyntaf ar 20 Mehefin 2007 ac maent yn gyson â Chod Ymarfer Da Trysorlys EM ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol. [22]

62. Bwriad yr egwyddorion hyn yw sicrhau arferion gweithio derbyniol o fewn y corff a helpu i reoli ei risgiau allweddol.

*Atebolrwydd*

63. Mae'r gyntaf o bum egwyddor llywodraethu corfforaethol y Cynulliad – atebolrwydd – yn datgan bod Comisiynwyr yn gyfrifol ac yn atebol i'r Cynulliad am arfer swyddogaethau statudol y Comisiwn. Mae ganddynt ddyletswydd at y Cynulliad i roi cyfrif, ac i gael eu dwyn i gyfrif, am holl bolisïau, penderfyniadau a gweithredoedd y corff.

64. Rhaid i'r Comisiynwyr weithredu o fewn eu cylch gwaith statudol fel y mae wedi'i nodi yn y Ddeddf. Dan y Ddeddf, caiff y Cynulliad roi cyfarwyddiadau arbennig neu gyffredinol er mwyn neu mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r Comisiwn.[23] Mae gwybodaeth fanylach am hyn ym Mhennod 5.

65. Lle y mae'r Comisiynwyr yn dirprwyo awdurdod i swyddogion (drwy'r Prif Weithredwr fel y mae'r Ddeddf yn caniatáu), mae'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn yn datgan y dylid cael diffiniad ysgrifenedig clir o'r dirprwyo ar y cyfrifoldebau hynny. Mae'r penderfyniadau a wneir gan

---

[21] Gweler Atodiad A
[22] Trysorlys EM – Gorffennaf 2005 http://www.hm-treasury.gov.uk/d/daocorpgovernancecode.pdf
[23] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), adran 27(6)

ddefnyddio pwerau sydd wedi'u dirprwyo fel hyn yn dal yn benderfyniadau y mae Comisiynwyr yn atebol amdanynt i'r Cynulliad.

66. Mae'r Prif Weithredwr, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn[24], hefyd yn bersonol gyfrifol ac atebol i'r Cynulliad am reoli a threfnu Comisiwn y Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys y modd y mae'r Comisiwn yn defnyddio arian cyhoeddus a'r stiwardiaeth ar ei asedau. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario'n unol ag egwyddorion 'rheoleidd-dra' a 'phriodoldeb' – hynny yw, yn unol â'r gyfraith a rheolau sydd â'r amcan o sicrhau ei fod yn cael ei wario mewn modd priodol a thryloyw. Dangosir yr atebolrwydd hwn yn fwyaf eglur wrth iddo gael ei ddwyn i gyfrif gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad.

67. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y Prif Weithredwr yn gyfrifol, yn unol ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol, am sefydlu a chofnodi dyraniad clir o gyfrifoldebau ymysg swyddogion yn y corff. Fodd bynnag, mae'r Prif Weithredwr yn dal yn bersonol gyfrifol ac atebol i'r Cynulliad yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu am y canlynol:

- priodoldeb a rheoleidd-dra;
- gweinyddu doeth a darbodus;
- osgoi gwastraff ac afradlondeb;
- defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithlon ac effeithiol; a
- threfnu, staffio a rheoli Comisiwn y Cynulliad.

68. Mae hefyd yn ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu ystyried gwerth am arian, mewn cysylltiad â defnyddio arian cyhoeddus, o safbwynt Cronfa Gyfunol Cymru a'r Trysorlys ehangach.

69. Mae mwy o wybodaeth am y mecanweithiau sydd ar waith i ddwyn y Comisiwn i gyfrif ym Mhennod 5.

[24] Ibid, adran 138(1)

*Y Comisiynwyr a'r uwch reolwyr*

70. Mae ail egwyddor llywodraethu corfforaethol yn datgan bod y Comisiynwyr yn gydgyfrifol am osod y fframwaith strategol i'r corff a goruchwylio ei berfformiad. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod Comisiynwyr yn gyfrifol am gytuno ar safonau a gwerthoedd y corff, yn ogystal â phennu ei nodau a'i amcanion strategol.

*(i) Rôl y Comisiynwyr*

71. Mae Comisiynwyr yn goruchwylio unrhyw broses newid y mae'r corff yn ymgymryd â hi ac ymddiriedwyd iddynt y dasg o hybu arloesedd a mentergarwch – lle y mae'n briodol – i hyrwyddo gallu'r corff i gyflenwi ei wasanaethau. Mae'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol yn mynnu hefyd y bydd Comisiynwyr yn cymryd rhan yn y prosesau ar gyfer asesu a rheoli risg.

72. Pan fydd Comisiynwyr yn gwneud eu penderfyniadau, disgwylir iddynt wneud hynny'n wrthrychol, gan weithredu er budd i'r cyhoedd ac yn unol ag egwyddorion Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus.[25] Er bod Aelodau, ac eithrio'r Llywydd, wedi'u henwebu gan eu priod grwpiau gwleidyddol (gweler Pennod 4), nid ydynt yn ddirprwyon nac yn gynrychiolwyr i'r grwpiau hynny. Er bod ganddynt hawl i ystyried barn eu cyd-Aelodau, disgwylir iddynt farnu'n annibynnol a gwneud penderfyniadau er budd i'r Cynulliad cyfan yn hytrach nag fel cynrychiolwyr plaid.[26]

73. Yn unol â'r ail egwyddor llywodraethu corfforaethol hon, disgwylir i Gomisiynwyr gwrdd yn ddigon rheolaidd i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, mae'r Comisiwn wedi cwrdd bob yn bum wythnos ar gyfartaledd pan oedd y Cynulliad yn eistedd ers ei greu ar ôl etholiad Cynulliad 2007. Yn ogystal â hynny, mae'r ail egwyddor llywodraethu corfforaethol hon yn mynnu:

- y dylai'r holl benderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan y Comisiwn gael eu cofnodi a'u darparu i reolwyr y corff;

---

[25] Gellir gweld Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus fel y maent wedi'u rhestru gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus yn 2006 yn http://www.public-standards.gov.uk/Library/Seven_principles.doc. Y saith egwyddor yw anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth

[26] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Cynnal Busnes Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru* 20 Mehefin 2007

- os oes pryderon gan Gomisiynydd na ellir eu datrys ynghylch gweithrediad y corff neu gam gweithredu arfaethedig, y dylai sicrhau bod y pryderon wedi'u cofnodi'n glir;

- y dylai Comisiynwyr eu bodloni eu hunain eu bod yn cael eu cyflenwi'n amserol â gwybodaeth sydd ar ffurf ac o ansawdd priodol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Dylai hyn gynnwys

- gwybodaeth fisol am gyfrifon rheoli sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau ariannol a dynol;

- gwybodaeth am gynnydd ar unrhyw dargedau perfformiad sydd wedi'u gosod; a

- gwybodaeth sy'n ymwneud ag adnabod a rheoli risg.

*(ii) Rôl yr uwch reolwyr*

74. Mae'r uwch reolwyr, a'r Prif Weithredwr yn bennaeth arnynt, yn gyfrifol am gynghori'r Comisiynwyr ac am arwain a rheoli'r corff o fewn y fframwaith strategol sydd wedi'i osod gan y Comisiynwyr. Maent hefyd yn gyfrifol am ymgymryd â pherchnogaeth ar ei berfformiad. Rôl yr uwch reolwyr yw:

- cynghori ynghylch dyrannu adnoddau ariannol a dynol i gyflawni'r nodau ac amcanion sydd wedi'u gosod;

- rheoli adnoddau'r corff, gan fonitro'r cyflawni ar amcanion perfformiad;

- cynnal system dryloyw o reolaethau synhwyrol ac effeithiol (yn cynnwys rheolaethau mewnol);

- asesu a rheoli risg.

*(iii) Yr Uned Gorfforaethol*

75. Mae'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol yn mynnu bod y Comisiynwyr a'r bwrdd rheoli'n cael cymorth gan Uned Gorfforaethol bwrpasol. Rôl yr uned hon yw sicrhau cydymffurfiad â gweithdrefnau ac egwyddorion y mae'r Comisiwn wedi cytuno arnynt a darparu cymorth drwy ysgrifenyddiaeth i'w waith. Rhaid i Gomisiynwyr hefyd roi gwybod am unrhyw faterion y gallai gwrthdaro buddiannau godi yn eu cylch rhyngddynt hwy a'r Uned Gorfforaethol a'u cofrestru. Ers

sefydlu'r Comisiwn, mae'r Uned Gorfforaethol wedi ymgymryd â chyfrifoldeb hefyd dros faterion eraill gan gynnwys, er enghraifft, yr agenda ar gydraddoldeb, rheoli cofnodion a chynllunio corfforaethol.

*(iv) Adroddiad Blynyddol*

76. Ar ôl pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol dan y Ddeddf i Gomisiwn y Cynulliad gyhoeddi adroddiad blynyddol.[27] Yn unol â'r Ddeddf, rhaid i'r adroddiad hwn fod yn un sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol a rhaid ei osod gerbron y Cynulliad. Yn unol â'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol dylai'r Comisiwn hefyd gynnwys gwybodaeth am ei ddull o weithredu, ac ynddi ddatganiad lefel uchel am y mathau o benderfyniad sydd i'w gwneud gan Gomisiynwyr a'r rhai y ceir eu dirprwyo (mae mwy o wybodaeth am ddirprwyo ym mharagraffau 47–52). Yn unol â'r arferion gorau, mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd yn cynnwys cyfrifon y Comisiwn wedi'u paratoi dan Adran 137 o Ddeddf 2006.

77. Mae adroddiadau blynyddol blaenorol ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn: [http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission.htm](http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission.htm). Yn unol â Rheol Sefydlog 7.61 rhaid neilltuo amser ym mhob blwyddyn Cynulliad yn ystod busnes y Cyfarfod Llawn ar gyfer dadleuon am adroddiad blynyddol y Comisiwn. Mae dadleuon o'r fath wedi'u dynodi'n fusnes y Cynulliad yn unol â Rheolau Sefydlog.[28]

*Sgiliau*

78. Mae trydedd egwyddor llywodraethu corfforaethol y Comisiwn yn datgan y dylai ei uwch reolwyr feddu ar gydbwysedd o sgiliau a phrofiad sy'n briodol ar gyfer cyfarwyddo'r busnes o drefnu. Ymysg yr uwch reolwyr dylid cael cydbwysedd priodol o bobl sydd â sgiliau yn y meysydd hyn: arweinyddiaeth a rheoli newid; cyfathrebu; cyflawni gweithredol, a rhagoriaeth prosesau; a sgiliau gwasanaethau corfforaethol, yn cynnwys rheoli adnoddau dynol, systemau a thechnoleg gwybodaeth, a chyfathrebu.

---

[27] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), Atodlen 2 para 9

[28] Mae tri chategori o fusnes y Cyfarfod Llawn wedi'u diffinio gan Reolau Sefydlog: Busnes y llywodraeth, Busnes y Cynulliad a Busnes heblaw busnes y llywodraeth. Mae diffiniad o bob un yn Rheol Sefydlog 7.

79. Yn ogystal â datblygu eu profiad eu hunain ac ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus, mae uwch reolwyr yn gyfrifol hefyd am ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth a datblygu doniau yn y corff.

80. Mae'r egwyddorion rheoli corfforaethol yn mynnu hefyd y bydd un o'r uwch dîm rheoli'n cael ei ddynodi'n Gyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn. Y Prif Swyddog Gweithredu sydd wedi'i ddynodi'n Gyfarwyddwr Cyllid, ac mae'n cynghori'r Comisiynwyr a'r Prif Weithredwr ar gynllunio ariannol a rheoli gweithrediadau'r corff.

*Cyngor Annibynnol*

81. Mae pedwaredd egwyddor llywodraethu corfforaethol yn datgan y dylai'r Comisiwn gael cymorth gan gynghorwyr annibynnol sy'n gweithredu mewn cymhwyster anweithredol. Amcan yr egwyddor hon yw sicrhau bod Comisiynwyr a'r uwch reolwyr yn cael eu cynorthwyo a'u herio'n adeiladol wrth gyflawni eu rôl a'u bod yn gallu galw ar ystod eang o brofiad wrth arfer swyddogaethau statudol y Comisiwn.

82. Gan fod y Ddeddf yn datgan mai dim ond Aelodau'r Cynulliad sy'n gymwys i'w penodi'n Gomisiynwyr, nid yw'n gyfreithiol bosibl penodi neu gyfethol aelodau anweithredol. Er hynny, mae'n bosibl i'r Comisiwn sicrhau gwasanaethau cynghorwyr annibynnol i gyflawni rôl anweithredol o'r math hwn.[29] Mae'r egwyddor yn datgan mai cyfrifoldeb y Comisiynwyr yw eu bodloni eu hunain bod y cynghorwyr yn ddigon annibynnol ac nad oes ganddynt unrhyw gysylltiadau teuluol neu gontractol neu gysylltiadau o fath arall y gallai gwrthdaro godi o'u herwydd gan effeithio ar eu barn.

*(i) Rôl cynghorwyr annibynnol*

83. Mae'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol yn datgan y dylai cynghorwyr annibynnol fod yn barod i gynnig her adeiladol ym mhob rhan o fusnes y Comisiwn gyda'r bwriad o sicrhau craffu ar bob agwedd ar strategaeth a chyflawni o safbwynt effeithioldeb ac effeithlonrwydd.[30] Yn benodol, dylent:

- ymwneud â monitro perfformiad a chynnydd y corff, gan gynnwys y defnydd o adnoddau dynol ac ariannol; a

---

[29] Am fod cynghorwyr annibynnol yn aelodau anweithredol, nid oes ganddynt unrhyw hawliau pleidleisio yng nghyfarfodydd y Comisiwn.
[30] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Egwyddorion Llywodraethu a Darpariaethau Ategol*, 20 Mehefin 2007, Atodiad 1

- dal trosolwg beirniadol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol y corff ar gyfer asesu a rheoli risg, gan alw ar eu profiad ehangach.

*(ii) Proses benodi*

84. Yn unol â'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol, penodir cynghorwyr annibynnol drwy broses agored a thryloyw sy'n gyson â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer penodiadau cyhoeddus eraill. Wrth eu penodi:

- maent yn cael cylch gorchwyl ysgrifenedig sy'n cynnwys manyleb eu rôl a'r telerau penodi; ac

- maent yn dilyn rhaglen gynefino sy'n ymwneud nid yn unig â'r corff ond hefyd â'r amgylchedd gweithredu cyfan.

*(iii) Sianeli cyfathrebu*

85. Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd cyfnodol â'r cynghorwyr annibynnol, yn unol â'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol, heb i swyddogion eraill fod yn bresennol. Caiff y cynghorwyr gynnig y dylent gael cyfle i gwrdd â Chomisiynwyr yn gyfnodol, heb i swyddogion fod yn bresennol, i drafod gwaith y Comisiwn. Dylai'r cynghorwyr sicrhau bod trefniadau ar waith i ganiatáu sianel i staff i godi pryderon priodol y tu allan i'r gadwyn rheoli llinell arferol.

*Rheolaethau mewnol ac archwilio*

86. Mae'r egwyddor gorfforaethol olaf yn mynnu bod y Comisiynwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu'n sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd ynghylch rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

87. Er mwyn sicrhau y cedwir at yr egwyddor hon, mae'r Comisiwn wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio – dan gadeiryddiaeth cynghorydd annibynnol – a gwasanaeth archwilio mewnol. Rhaid i'r Pwyllgor Archwilio gynnwys o leiaf dri aelod yn ogystal â'i gadeirydd, a dylai o leiaf un o aelodau'r pwyllgor fod â phrofiad diweddar a pherthnasol o faterion ariannol.

88. Mae'r Pwyllgor Archwilio'n gweithredu'n unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Trysorlys EM i bwyllgorau archwilio.[31] Yn unol â phumed egwyddor llywodraethu corfforaethol, mae ei gylch gorchwyl yn cael ei gyhoeddi a dylid trafod ei waith yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn (mae mwy o fanylion am Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ym mharagraffau 76-77 uchod).

89. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ystyried ac yn cynghori ynghylch y gwaith archwilio mewnol ac allanol, cyfrifon blynyddol y Comisiwn, a'r trefniadau ar gyfer llywodraethu corfforaethol a rheoli risg. Mae'n cynhyrchu adroddiad blynyddol am ei waith i'r Comisiwn.

90. Hyd 2009-10, roedd cwmni o gyfrifwyr a benodwyd drwy gystadleuaeth agored yn ymgymryd â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Yn awr mae'r Comisiwn yn cyflogi Pennaeth Archwilio Mewnol o fewn y corff sydd wedi gosod rhywfaint o'r gwaith ar gontract i gwmni a benodwyd drwy gystadleuaeth agored gan gadw cyfrifoldeb llawn dros y swyddogaeth archwilio gyffredinol.

*(i) Archwilio Allanol*

91. Archwilydd Cyffredinol Cymru (Pennaeth Swyddfa Archwilio Cymru) yw'r archwilydd allanol sydd wedi'i benodi'n statudol ar gyfer y Comisiwn. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyfrifon blynyddol y Comisiwn a chaiff gyhoeddi adroddiad am unrhyw fater sy'n ymwneud â'r cyfrifon hynny neu am ganlyniadau unrhyw ymchwiliad i werth am arian. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd Pwyllgor Archwilio'r Comisiwn.

92. Er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â thâl a chyflogau aelodau o staff y Cynulliad, sefydlwyd Pwyllgor Tâl. Yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Comisiwn y Cynulliad benodi staff a bydd yn talu cyflogau aelodau o staff y Cynulliad. Mae tâl y Prif Weithredwr yn fater i'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi dirprwyo cyfrifoldeb dros dalu staff y Cynulliad i'r Prif Weithredwr ond mae hyn yn amodol ar ymgynghori â'r Comisiwn yn achos Cyfarwyddwyr.

93. Mae'r Pwyllgor Tâl yn gorff cynghorol sy'n cynnwys tri phenodai annibynnol, sy'n hyddysg ym maes llywodraethu a thâl ac sydd heb bwerau gweithredol. Mae'r Comisiwn wedi awdurdodi'r Pwyllgor i

---

[31] Trysorlys EM – Mawrth 2007 http://www.hm-treasury.gov.uk/audit_committee_handbook.htm

ystyried a gwneud argymhellion ynghylch materion sy'n ymwneud â thâl a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Prif Weithredwr). Yn ogystal â hynny, mae'r Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau am unrhyw argymhellion neu gynigion gan y Prif Weithredwr ynghylch tâl, taliadau bonws a materion eraill o ran tâl a gwobrwyo ar gyfer Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol.

94. Mae'r Pwyllgor yn helpu'r Comisiwn a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod y Cynulliad yn cwrdd â'r safonau uchaf o ran uniondeb ac atebolrwydd am ddefnyddio arian cyhoeddus drwy roi cyngor ar gais y Comisiwn, a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu, ar eu cyfrifoldebau dros bolisïau a systemau arfarnu a thalu.

### *Egwyddorion gweithredu statudol*

95. Yn ogystal â'r egwyddorion llywodraethu corfforaethol sydd wedi'u mabwysiadu gan y Comisiwn, mae Atodlen 2 i'r Ddeddf yn disgrifio'r egwyddorion statudol y mae'n rhaid i'r Comisiwn arfer ei swyddogaethau'n unol â hwy.

*Cyfle cyfartal*

96. Mae Deddf 2006 yn rhoi'r Comisiwn dan ddyletswydd i wneud trefniadau priodol i sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb. [32] Nid yw'r Comisiwn (ar adeg ysgrifennu hyn) yn dod dan y darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Er hynny, fel cyflogwr a chorff cyhoeddus, mae'n dal at ei hysbryd a'i hegwyddorion.

**Blwch 4: Fframwaith/trefniadau cydraddoldeb y Comisiwn**

**Datganiad Polisi Cydraddoldeb Strategol (2008-11)**
Mae hwn yn egluro strategaeth, gweledigaeth a gwerthoedd y Comisiwn ar gyfer cydraddoldeb a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i wireddu ei weledigaeth.

**Cynllun Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu (2008-11)**
Mae'r Cynllun Cydraddoldeb yn egluro dull y Comisiwn o gyflawni ei

[32] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), Atodlen 2 para 8(1)

amcanion o ran cydraddoldeb wrth gyflawni ei rôl fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau i Aelodau'r Cynulliad, eu staff ac aelodau o'r cyhoedd. Mae cynllun gweithredu sydd gydag ef yn rhestru'r camau a gymerwn i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a symud rhwystrau rhag cydraddoldeb.

**Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol**

Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad cydraddoldeb blynyddol sy'n disgrifio'r cynnydd ar gyflawni amcanion y Cynllun Cydraddoldeb. Bydd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad yn craffu ar yr adroddiad a chaiff ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/equalities.htm

**Urddas yn y Gweithle**

Mae gan y Comisiwn bolisi Urddas yn y Gweithle i sicrhau y cymerir camau i herio a delio ag aflonyddu yn y gweithle.

*Datblygu cynaliadwy*

97. Mae'r Ddeddf yn mynnu hefyd fod rhaid rhoi sylw dyladwy, wrth arfer swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, i'r egwyddor o hyrwyddo datblygu cynaliadwy.[33]

**Blwch 5: Polisïau datblygu cynaliadwy'r Comisiwn**

Mae strategaeth Comisiwn y Cynulliad yn cynnwys ymrwymiad clir i weithio'n gynaliadwy.

"Byddwn yn dangos arweiniad yn y ffordd yr ydym yn rheoli ein gwaith a'n hystâd a'n nod yw sicrhau ein bod yn gwneud hynny yn y ffordd fwyaf cynaliadwy bosibl".

http://www.cynulliadcymru.org/commission_strategy_2007-2001_final-2.pdf

**Yr amgylchedd**

Mae'r Comisiwn yn gweithredu System Reoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd sy'n cyfateb i ISO 14001 neu BS 8555. Mae system y Ddraig Werdd yn cynnwys Cynllun Gweithredu sydd â thargedau ac amcanion amgylcheddol a rhaglen o archwiliadau amgylcheddol.

http://www.groundworkinwales.org.uk/greendragon/index.html

[33] Ibid, Atodlen 2 para 8(2)

Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol.

http://www.assemblywales.org/environmental_report_08-09.pdf

Cyhoeddir gwybodaeth gyhoeddus am ein perfformiad o ran cynaliadwyedd ar ein gwefan.

http://www.cynulliadcymru.org/sen-home/sen-environmental-features/sen-environmental-features-sustainability-link-2

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi gwneud "Ymrwymiad i Gynaliadwyedd" ar ffurf Cynllun Rheoli Carbon ac mae'n cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Garbon i gyrraedd targedau ymestynnol ar gyfer defnyddio llai o ynni.

http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission/abt-commission-agendas.htm?act=dis&id=155358&ds=11/2009

Mae gofynion am gynaliadwyedd hefyd yn rhan annatod o brosesau caffael y Comisiwn ac rydym yn defnyddio Offeryn Hunanasesu Caffael Cynaliadwy i fesur perfformiad.

**Effeithiau cymdeithasol**
Mae contractau masnachol y Comisiwn yn cael effaith gymdeithasol ac mae materion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'u cynnwys yn ein proses gaffael safonol. Os yw'n briodol, mae ein contractau'n cynnwys darpariaethau ar gyfer Masnach Deg a "Cyflog Byw" etc.

**Effeithiau economaidd**
Mae polisïau caffael y Comisiwn yn cymell dileu rhwystrau rhag cyfranogi gan fusnesau bach a chanolig eu maint.

http://www.cynulliadcymru.org/gethome/abt-procurement.htm

*Y Gymraeg a'r Saesneg*

98. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Comisiwn y Cynulliad, wrth arfer ei swyddogaethau, yn dal at yr egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal, i'r graddau y mae hynny'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

**Blwch 6: Cynllun iaith y Cynulliad**

Mae Cynllun Iaith Gymraeg wedi bod ar waith er 11 Gorffennaf 2007. Cyn hynny roedd datganiad gwasanaethau dwyieithog yn weithredol. Mae'r Cynllun yn egluro ein huchelgais i ddod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog a sut y byddwn yn ceisio gwireddu'r uchelgais hwnnw. Cafwyd cydymffurfio cadarnhaol gan mwyaf â gofynion y Cynllun drwy gydol oes y

Cynllun. Mae'n destun ymarferiad ffurfiol bob blwyddyn a rhoddir gwybod am y canlyniadau i Gomisiwn y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ar ddechrau 2010 cafwyd adolygiad o'n gwasanaethau dwyieithog gan banel annibynnol a chytunodd Comisiwn y Cynulliad y byddai ei argymhellion yn sail i ymgynghoriad cyhoeddus. Mae gwaith cynllunio'n dechrau'n awr i sicrhau bod trefniadau newydd ar waith ar gyfer 2011.

# 4. Comisiynwyr y Cynulliad

99. Yn unol ag Adran 27(2) o'r Ddeddf, mae'r Comisiwn yn cynnwys Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a phedwar Aelod Cynulliad arall. Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol yn gorfforaethol am arfer y swyddogaethau sydd wedi'u rhoi i'r Comisiwn ac am lywodraethu'r corff a rhaid iddynt weithredu er budd y Cynulliad cyfan.

***Meysydd cyfrifoldeb y Comisiynwyr***

100. Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol yn gorfforaethol am arfer y swyddogaethau sydd wedi'u rhoi i'r Comisiwn ac am lywodraethu'r corff ac, yn unol â hynny, am weithredu er budd y Cynulliad cyfan[34].

101. Mae cyfrifoldebau'r Comisiwn wedi'u rhannu'n bortffolios gwahanol. Mae gan bob Comisiynydd gyfrifoldeb unigol dros faes gwaith penodol. Mae'r meysydd portffolio hyn yn rhai trawsbynciol a strategol ac yn caniatáu i Gomisiynwyr weithio ar draws amryw o wasanaethau.

**Blwch 7: Portffolios y Comisiynwyr**

**Cadeirydd y Comisiwn – Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Elis-Thomas AC**
Mae'r Comisiwn dan gadeiryddiaeth y Llywydd, sydd â chyfrifoldeb arbennig dros hyrwyddo ymgysylltu democrataidd; arweinyddiaeth ragorol; datblygu pwerau deddfwriaethol y Cynulliad yn y dyfodol a chysylltiadau allanol.

**Comisiynydd dros y Cynulliad sy'n Gwella – Chris Franks AC**
Mae'r portffolio hwn yn cynnwys ystyriaeth i wella gwasanaethau ar gyfer Aelodau a dinasyddion; cynnwys rhanddeiliaid yng ngwaith y Cynulliad; cynllunio strategol; ac ystyried gwerth am arian.

**Comisiynydd dros Adnoddau'r Cynulliad – William Graham AC**
Mae'r portffolio hwn yn cynnwys ystyriaeth i'r dull o reoli asedau'r Cynulliad; pobl y Cynulliad (yn cynnwys cyflogeion, contractwyr, gwasanaethau a ddarperir i gynorthwyo Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad);

[34] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Cynnal Busnes Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru* 20 Mehefin 2007

y gyllideb; cyflogau a lwfansau Aelodau; effeithlonrwydd a llywodraethu da.

**Comisiynydd dros y Cynulliad a'r Dinesydd – Peter Black AC**
Mae'r portffolio hwn yn cynnwys ystyriaeth i ansawdd craffu a'r broses ddeddfwriaethol; cyfathrebu allanol; TGCh; addysg dinasyddiaeth; materion cyfreithiol a Rhyddid Gwybodaeth.

**Comisiynydd dros y Cynulliad Cynaliadwy – Lorraine Barrett AC**
Mae'r portffolio hwn yn cynnwys cyfrifoldeb dros gydraddoldeb; iaith; yr amgylchedd a bod yn niwtral o ran carbon; caffael cynaliadwy a rheoli'r stad.

**Penodi Comisiynwyr**

102. Mae Adran 27(2) o'r Ddeddf yn darparu bod y Llywydd yn dal ei swydd fel Comisiynydd yn rhinwedd swydd y Llywydd. Dywed y Ddeddf fod trefniadau ar gyfer penodi pedwar aelod statudol arall Comisiwn y Cynulliad yn fater i Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

103. Yn unol ag Adran 27(4) o'r Ddeddf, mae Rheol Sefydlog 3.2 yn mynnu, hyd y bo'n rhesymol ymarferol, na chaiff mwy nag un aelod o Gomisiwn y Cynulliad (heblaw'r Llywydd) berthyn i unrhyw grŵp gwleidyddol penodol.[35]

104. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl etholiad Cynulliad, rhaid i'r Cynulliad (mewn Cyfarfod Llawn) ystyried cynnig wedi'i gyflwyno gan y Pwyllgor Busnes yn cynnig enwau'r pedwar Aelod Cynulliad i'w penodi'n aelodau o'r Comisiwn.[36] Yn unol â Rheol Sefydlog 3.1, rhaid gwneud hyn heb fod yn fwy na deng niwrnod ar ôl penodi aelodau'r Pwyllgor Busnes. Mae Rheolau Sefydlog yn gwahardd cyflwyno unrhyw welliant i gynnig o'r math hwn.[37]

105. Yn unol â Rheol Sefydlog 3.3, os oes pedwar neu fwy o grwpiau gwleidyddol[38] yn y Cynulliad, lle'r arweinydd ar bob un o'r pedwar grŵp

---

[35] Er bod Rheol Sefydlog 3.2 yn pennu y dylid cael Comisiynydd o bob plaid, nid yw'r Ddeddf yn mynnu hynny. Oherwydd hyn, gellid diwygio'r rheol sefydlog hon drwy fwyafrif o ddwy ran o dair yn y Cyfarfod Llawn.
[36] Rheol Sefydlog 3.1
[37] Rheol Sefydlog 3.6
[38] Yn unol â Rheol Sefydlog 1.3 ac i ddibenion y Ddeddf, mae grŵp gwleidyddol (i) yn grŵp o Aelodau sy'n perthyn i'r un blaid wleidyddol gofrestredig a chanddi o leiaf dri Aelod yn y Cynulliad; neu (ii) yn dri neu ragor o Aelodau sydd, a hwythau heb fod yn aelodau o blaid wleidyddol gofrestredig sydd wedi'i chynnwys yn Rheol Sefydlog 1.3(i), wedi hysbysu'r Llywydd o'u dymuniad i gael eu hystyried yn grŵp gwleidyddol.

gwleidyddol mwyaf yw hysbysu'r Pwyllgor Busnes o enw aelod o'i grŵp gwleidyddol sydd i'w gynnwys yn y cynnig sy'n cynnig enwau'r pedwar Aelod Cynulliad sydd i'w penodi'n aelodau o'r Comisiwn.[39]

106. Os oes llai na phedwar grŵp gwleidyddol yn y Cynulliad, lle'r arweinydd ar bob un o'r grwpiau gwleidyddol yw hysbysu'r Pwyllgor Busnes o enw aelod o'i grŵp gwleidyddol. Yn unol â Rheol Sefydlog 3.4, bydd wedyn yn fater i'r Pwyllgor Busnes benderfynu enw unrhyw Aelod neu Aelodau ychwanegol sydd i'w cynnwys yn y cynnig sy'n cynnig enwau'r pedwar Aelod Cynulliad sydd i'w penodi'n aelodau'r Comisiwn.

### Cyfnodau swydd

#### *Y Llywydd*

107. Mae'r Llywydd yn dal swydd fel aelod o Gomisiwn y Cynulliad nes caiff person arall ei ethol i swydd y Llywydd *oni bai* iddo beidio â bod yn Aelod Cynulliad heblaw oherwydd diddymu'r Cynulliad.[40] Mae hyn yn golygu y bydd y Llywydd fel arfer yn parhau'n aelod o'r Comisiwn nes ei ailbenodi neu benodi rhywun yn ei le *ar ôl* etholiad. Mae Rheol Sefydlog 3.7 yn atal y Llywydd rhag ymddiswyddo o'r Comisiwn.

#### *Comisiynwyr eraill*

108. Mae'r Ddeddf yn darparu y bydd aelodau o'r Comisiwn yn parhau yn eu swydd nes caiff Aelod Cynulliad arall ei benodi yn eu lle, oni bai fod:

- y Comisiynydd yn ymddiswyddo fel aelod o'r Comisiwn (gweler paragraff 109 isod);
- y Comisiynydd yn peidio â bod yn Aelod Cynulliad heblaw oherwydd diddymu'r Cynulliad;[41] neu fod

---

[39] Os oes dau neu ragor o grwpiau gwleidyddol sydd â'r un nifer o aelodau, mae Rheol Sefydlog 3.5 yn darparu bod y Llywydd yn gorfod penderfynu, gan ddal sylw ar lefel y gefnogaeth etholiadol i bob un o'r grwpiau gwleidyddol dan sylw, pa un o'r grwpiau gwleidyddol hynny yw'r un mwyaf.
[40] Ar dudalen 95 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Ddeddf eglurir bod peidio â bod yn Aelod Cynulliad heblaw oherwydd diddymu'r Cynulliad yn gallu bod yn ganlyniad i farwolaeth, anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad, rhoi'r gorau i eistedd fel Aelod Cynulliad neu fel aelod o'r Comisiwn, neu ei symud o'r Comisiwn drwy benderfyniad gan y Cynulliad.
[41] Ibid

- y Comisiynydd yn cael ei symud o'i swydd fel aelod o'r Comisiwn gan y Cynulliad (gweler paragraff 110 isod).[42]

109. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd y Comisiynwyr yn aros yn eu swydd pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu cyn etholiad. Ni fydd neb yn cymryd eu lle nes caiff Comisiwn newydd ei benodi gan y Cynulliad nesaf, yn dilyn yr etholiad. O ganlyniad i hyn, gall y Comisiwn ddal i weithredu yn ystod diddymiad: ni fydd byth gyfnod pan na fyddai'r Comisiwn yn gallu gwneud penderfyniadau am nad oedd ganddo aelodau.

**Diswyddo neu ymddiswyddo**

110. Mae darpariaeth yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ymddiswyddo gan aelodau o'r Comisiwn. Er mwyn ymddiswyddo, rhaid i aelod o'r Comisiwn roi rhybudd drwy lythyr i'r Clerc. Ni chaniateir i'r Llywydd ymddiswyddo o'i rôl fel Comisiynydd, er y gall ymddiswyddo o rôl y Llywydd, wrth gwrs, a phe digwyddai hynny byddai'n peidio â bod yn Gomisiynydd.[43]

111. Caiff unrhyw Aelod Cynulliad gyflwyno cynnig sy'n cynnig y bydd aelod penodol o'r Comisiwn (heblaw'r Llywydd) yn cael ei symud o'r Comisiwn.[44] Mater i'r Pwyllgor Busnes fyddai penderfynu a ddylid a pha bryd y dylid neilltuo amser i ystyried cynnig o'r fath. Nid yw Rheolau Sefydlog yn atal cyflwyno gwelliant i gynnig o'r math hwn. Os derbynnir unrhyw gynnig o'r fath yn y Cyfarfod Llawn, caiff yr Aelod hwnnw ei symud o'r Comisiwn ar unwaith.[45]

112. Pan fydd aelod o'r Comisiwn yn peidio â bod yn Aelod Cynulliad (heblaw drwy ddiddymu'r Cynulliad), yn ymddiswyddo o'r Comisiwn, neu'n cael ei symud o'r Comisiwn gan y Cynulliad, mae Rheol Sefydlog 3.9 yn mynnu bod y Cynulliad yn ystyried cynnig wedi'i gyflwyno gan y Pwyllgor Busnes yn cynnig enw Aelod Cynulliad i gymryd lle'r Aelod hwnnw fel aelod o'r Comisiwn.

---

[42] Deddf Llywodraeth Cymru (c.32), Atodlen 2 para 1
[43] Rheol Sefydlog 3.7
[44] Rheol Sefydlog 3.8
[45] Ibid

## Cyfrifoldebau Comisiynydd

### *Egwyddorion cyffredin*

113. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, yn ystod ei gyfarfod cyntaf ym Mehefin 2007, cytunodd y Comisiwn ar set o egwyddorion cyffredin y mae'n dal atynt wrth arfer ei swyddogaethau.[46] Yn ogystal â disgrifio'r rheolau a gwerthoedd cyffredin y mae'n gweithredu'n unol â hwy, mae'r Comisiwn wedi cytuno ar raniad cyffredinol y cyfrifoldeb rhwng ei rôl ef a rôl yr uwch reolwyr:

| **Blwch 8: Rhaniad cyfrifoldeb** | |
|---|---|
| Mae Comisiynwyr yn gyfrifol am y canlynol: | Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am y canlynol: |
| - gosod y strategaeth gyffredinol; | - cyflawni'r strategaeth sydd wedi'i gosod gan Gomisiynwyr; |
| - gosod targedau perfformiad clir a dal swyddogion yn atebol am eu cyflawni; ac | - gweithredu ar benderfyniadau'n gyflym, o fewn fframwaith perfformiad clir ac o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd; |
| - ateb i'r Cynulliad ac i'r cyhoedd yng Nghymru dros waith y Comisiwn. | - darparu gwybodaeth a chyngor amserol, cywir a chlir i Gomisiynwyr; ac |
| | - ateb i'r Comisiwn ac yn allanol dros berfformiad a materion gweithredol. |

[46] Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Egwyddorion Cyffredin Comisiwn y Cynulliad a'i Fwrdd Gweithredol*, 20 Mehefin 2007.

## Ymddygiad Comisiynwyr

### *Y berthynas ag aelodaeth o'r Cynulliad*

114. Tynnir Comisiynwyr o blith aelodaeth y Cynulliad. Felly maent yn ddarostyngedig i'r safonau ymddygiad cyffredinol sydd wedi'u gosod gan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad y mae'r Cynulliad wedi cytuno arno.[47]

115. Serch hynny, nid yw'r Comisiwn yn bwyllgor i'r Cynulliad; mae'n bodoli'n annibynnol ar y Cynulliad. Fel y nodwyd uchod yn yr arweiniad hwn, mae Comisiynwyr yn parhau i ddal y swydd honno yn ystod cyfnodau pan yw'r Cynulliad wedi'i ddiddymu, er nad ydynt yn Aelodau Cynulliad yn ystod y cyfnodau hynny, nes eu hailbenodi neu benodi rhai yn eu lle gan y Cynulliad newydd. Mae dyletswyddau neilltuol wedi'u gosod ar Gomisiynwyr a allai fynnu iddynt weithredu'n wahanol i'r modd y byddent yn dewis o safbwynt personol neu o safbwynt plaid wleidyddol.

### *Gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus*

116. Dylai Comisiynwyr bob amser:

- ddilyn saith egwyddor bywyd cyhoeddus ("Egwyddorion Nolan"[48]);
- dal at yr Egwyddorion Cyffredin sydd wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn (mae mwy o wybodaeth ym Mhennod 3);
- cymhwyso'r dyletswyddau sydd wedi'u rhoi ar y Comisiwn gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, meithrin cyfle cyfartal a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal (mae mwy o wybodaeth ym Mhennod 3);
- bod yn atebol i'r Cynulliad am bolisïau, penderfyniadau a gweithredoedd Comisiwn y Cynulliad;

---

[47] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad*, fel y cytunwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Mawrth 2008.
[48] Gweler Atodiad C

- derbyn yr angen i weithredu'n gyfreithlon, yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol cyffredinol sydd wedi'u gosod ar Gomisiwn y Cynulliad, er enghraifft, gan gyfraith cyflogaeth; a
- gweithredu'n dryloyw, yn unol ag egwyddorion rhyddid gwybodaeth.

### *Y dull cyffredinol o drafod cyfrifoldebau Comisiynwyr*

117. Wrth gyflawni eu rôl fel aelodau o Gomisiwn y Cynulliad, disgwylir i Gomisiynwyr arfer barn a gwneud penderfyniadau er budd i Gomisiwn y Cynulliad ac i'r Cynulliad cyfan.

118. Dylid gwneud penderfyniadau mewn modd gwrthrychol, er budd i'r cyhoedd ac yn gyson ag Egwyddorion Nolan. Er bod hawl gan Gomisiynwyr i ystyried barn eu cyd-aelodau a'u hetholwyr, ni ddylent ganiatáu i'w rolau fel Aelodau Cynulliad etholaeth neu ranbarth bennu'r ffordd y maent yn gweithredu fel Comisiynwyr.

### *Cyfrifoldebau ar y cyd*

119. Mae Comisiynwyr yn gyfrifol ar y cyd am y canlynol:

- sicrhau bod Comisiwn y Cynulliad yn cydymffurfio â'r gofynion statudol sydd arno;
- gosod y fframwaith strategol ar gyfer Comisiwn y Cynulliad; ac
- arolygu ei berfformiad.

120. Dylai Comisiynwyr:

- sicrhau bod safonau uchel o lywodraethu corfforaethol yn cael eu cadw bob amser;
- pennu nodau ac amcanion strategol cyffredinol y corff;
- cytuno ar safonau a gwerthoedd Comisiwn y Cynulliad;
- arolygu'r broses o newid, gan hybu arloesedd, a mentergarwch lle y bo'n briodol, er mwyn gwella gallu Comisiwn y Cynulliad i gyflawni;

- cymryd rhan yn y broses ar gyfer asesu a rheoli risg;
- ymgymryd â gwerthusiad blynyddol o berfformiad Comisiwn y Cynulliad;
- sicrhau eu bod, wrth wneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth deg i ac yn rhoi pwys dyladwy ar gyngor gwybodus a diduedd gan staff; a
- sicrhau bod penodiadau staff uwch y maent yn gyfrifol amdanynt yn cael eu gwneud yn ôl teilyngdod a'u bod yn bodloni meini prawf gwrthrychol.

***Cyfrifoldebau unigol***

121. Mae'r meysydd lle y mae disgwyl i Gomisiynwyr ymddwyn mewn modd penodol wedi'u disgrifio isod:

| **Blwch 9: Ymddygiad unigol Comisiynwyr** |
|---|
| **Cyfarfodydd**<br>Disgwylir i Gomisiynwyr fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad oni bai fod amgylchiadau eithriadol (e.e. busnes y Cynulliad neu fusnes mewn gwlad dramor) yn peri bod hyn yn amhosibl.<br>Os bydd Comisiynwyr yn cael mewn amgylchiadau eithriadol na allant osgoi bod yn absennol o gyfarfod o'r Comisiwn, dylent roi gwybod am hynny cyn gynted ag y bo modd, i'r Llywydd, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc neu i'r Ysgrifenyddiaeth.<br><br>**Rhoddion a lletygarwch**<br>Dylai Comisiynwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r Cynulliad ynghylch derbyn rhoddion a lletygarwch.[49]<br><br>**Gwrthdaro buddiannau**<br>Dylai Comisiynwyr ddatgan a chofrestru gyda'r Uned Gorfforaethol, unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau fel Comisiynwyr. Os nad ydynt yn sicr, dylent ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Clerc. |

[49] Gweler Atodiad B

**Defnyddio gwybodaeth, cyfleusterau, cyfarpar a gwasanaethau**
Ni ddylai Comisiynwyr gamddefnyddio gwybodaeth a gafwyd wrth gyflawni eu rolau fel Comisiynwyr er mwyn cael elw neu fantais iddynt hwy eu hunain neu i blaid wleidyddol, ac ni ddylent ychwaith ddefnyddio cyfleusterau sydd ar gael iddynt er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel Comisiynwyr at ddibenion eraill.

**Staff**
Disgwylir i Gomisiynwyr gynnal didueddrwydd gwleidyddol staff y Cynulliad, a pheidio â gofyn iddynt weithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n groes i God Ymddygiad y Staff.

**Ymddiriedaeth a Pharch y Cyhoedd**
Rhaid i Gomisiynwyr ymdrechu i gadw ymddiriedaeth y cyhoedd yng Nghomisiwn y Cynulliad a'u parch tuag ato. Ni ddylai Comisiynwyr ddwyn anfri ar y Comisiwn. Dylent hysbysu'r Prif Weithredwr a'r Clerc cyn gynted ag y deuant i wybod am amgylchiadau (er enghraifft, y posibilrwydd o ddwyn achos cyfreithiol) a allai wrthdaro mewn unrhyw fodd â'u rôl fel Comisiynwyr.

**Y Cyfryngau**
Yn y lle cyntaf, dylai Comisiynwyr gyfeirio pob ymholiad a gânt gan y wasg a darlledwyr am faterion sy'n ymwneud â gwaith y Comisiwn, neu'n gofyn am farn y Comisiynwyr yn y cymhwyster hwnnw, at y Swyddfa Cyswllt â'r Cyfryngau.

Dylid ymgynghori â'r Llywydd os oes bwriad i ddwyn cwyn ffurfiol (boed i Gomisiwn Cwynion y Wasg neu i'r Comisiwn Safonau Darlledu) yn erbyn newyddiadurwr neu ran benodol o'r cyfryngau mewn cysylltiad â sylw i fusnes y Cynulliad.

Dylid ymgynghori bob tro â'r Tîm Cyswllt â'r Cyfryngau cyn gwneud unrhyw gŵyn lafar yn erbyn un o gyrff y cyfryngau ynghylch ei ddull o drafod stori newyddion.

## 5. Busnes a gweithdrefnau'r Comisiwn

122. Mae Atodlen 2(11) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") yn darparu y caiff Comisiwn y Cynulliad benderfynu ei weithdrefnau ei hun.[50] Yr unig gyfyngiad y mae'r atodlen hon i'r Ddeddf yn ei roi ar y Comisiwn yw'r gofyniad i'r Llywydd lywyddu yn ei gyfarfodydd, oni bai fod y swydd honno'n wag neu fod y Llywydd yn analluog i weithredu. Os felly y mae, gall Comisiwn y Cynulliad benodi un arall o'i aelodau i lywyddu yn y cyfarfod.[51]

123. Yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed yn y Ddeddf i'r Comisiwn benderfynu ei weithdrefnau ei hun, cytunodd Comisiynwyr ar bapur a oedd yn disgrifio sut y dylid cynnal ei fusnes yn ystod ei gyfarfod cyntaf ar 20 Mehefin 2007. Mae'r prif weithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Comisiwn wedi'u disgrifio isod.

**Gweithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn**

### *Cyfarfodydd*

124. Bydd cyfarfodydd yn breifat, oni bai fod y Comisiwn yn penderfynu fel arall.

### *Rheoleidd-dra cyfarfodydd*

125. Bydd y Comisiwn yn penderfynu rheoleidd-dra ei gyfarfodydd. Fel arfer bydd cyfarfodydd o'r fath yn digwydd pan yw'r Cynulliad yn eistedd ond ceir eu cynnal yn ystod toriad hefyd os bydd angen.

### *Gohirio cyfarfodydd*

126. Caiff unrhyw Gomisiynydd gynnig y bydd cyfarfod yn cael ei ohirio. Penderfyniad i'r Comisiwn yw unrhyw ohiriad o'r fath.

### *Cyfarfodydd arbennig*

127. Caiff y Cadeirydd gynnull cyfarfod arbennig o'r Comisiwn pan yw'n ymddangos iddo fod eitem o fusnes yn galw am sylw brys. Penderfynir dyddiad cyfarfod arbennig o'r math hwn gan y Prif

---

[50] Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (c.32), Atodlen 2 para 11
[51] Ibid, Atodlen 2 para 11(2)

Weithredwr a’r Clerc ar ôl cysylltu â chynifer o Gomisiynwyr ag sy’n ymarferol.

128. Caiff Comisiynydd ofyn i’r Cadeirydd gynnull cyfarfod arbennig. Lle’r Cadeirydd yw penderfynu caniatáu cais o’r fath neu beidio. Caiff unrhyw ddau Gomisiynydd fynnu cael cyfarfod arbennig drwy ysgrifennu at y Prif Weithredwr a’r Clerc gan nodi’r busnes sydd i’w drafod.

129. Bydd y Prif Weithredwr a’r Clerc yn trefnu ar gyfer cynnull cyfarfodydd arbennig o’r fath ac, os oes modd, dylai’r cyfarfod ddigwydd heb fod yn hwyrach na saith diwrnod gwaith clir ar ôl dyddiad y cais.

### *Cadeirydd*

130. Y Llywydd fydd yn cadeirio cyfarfodydd. Os yw swydd y Llywydd yn wag, neu os yw’r Llywydd am unrhyw reswm yn analluog i weithredu, bydd yr aelodau sy’n weddill yn cytuno ar Gomisiynydd i gadeirio’r cyfarfod.

131. Rôl y Cadeirydd yw:

- cadw trefn a sicrhau bod Comisiynwyr a chynghorwyr arbennig yn cael digon o gyfle i fynegi eu barn am unrhyw fater sy’n cael ei drafod;
- penderfynu ym mha drefn y bydd y rheini sy’n dymuno siarad yn gorfod gwneud hynny;
- yn unol â’r rheolau hyn, penderfynu ar yr holl faterion sy’n ymwneud ag arfer a threfn;
- sicrhau bod cynigion a/neu welliannau wedi’u mynegi’n glir; a
- lle nad yw cynnig yn cael ei ystyried, crynhoi’r drafodaeth ar gyfer y cofnod.

### *Cworwm*

132. Y cworwm ar gyfer unrhyw gyfarfod o’r Comisiwn yw tri aelod o’r Comisiwn.

## *Ymbresenoli*

133. Dylai Comisiynwyr a chynghorwyr annibynnol hysbysu'r Uned Gorfforaethol ymlaen llaw, os oes modd, os na fyddant yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod penodol.

134. Os yw Comisiynydd neu gynghorydd annibynnol yn analluog i fod yn bresennol mewn cyfarfod, am ba bynnag reswm, yna caiff gyflwyno sylwadau ysgrifenedig gyda'i farn am unrhyw faterion sy'n cael eu hystyried.

135. Yn ychwanegol at y Comisiynwyr, bydd y canlynol yn bresennol fel arfer:

- cynghorwyr annibynnol (anweithredol) sydd wedi'u penodi gan y Prif Weithredwr a'r Clerc;
- y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr staff y Cynulliad;
- ysgrifennydd cofnodion wedi'i ddarparu gan yr Uned Gorfforaethol; a
- chaiff swyddogion eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd yn ôl yr angen.

136. Ni chaniateir dirprwy Gomisiynwyr fel arfer ond, os bydd y Comisiwn yn cytuno, caiff Aelod Cynulliad fod yn bresennol mewn cyfarfod ar ran Comisiynydd absennol ond ni fyddai caniatâd iddo bleidleisio.

137. Lle y mae'r Comisiynwyr o'r farn bod rhyw fater yn neilltuol o sensitif neu gyfrinachol, caiff y Cadeirydd argymell bod yr eitem yn cael ei hystyried yn breifat heb i sylwedyddion neu swyddogion fod yn bresennol. Os bydd y Comisiwn yn derbyn argymhelliad o'r fath rhaid i'r swyddogion hynny a bennir gan y Comisiwn adael y cyfarfod, ond dylai'r Prif Weithredwr a'r Clerc (neu uwch swyddog arall yn niffyg hynny) a'r ysgrifennydd cofnodion aros yn bresennol.

## *Papurau*

138. Dylai papurau ar gyfer unrhyw gyfarfod, heblaw cyfarfod arbennig, gael eu trefnu'n unol â chanllawiau a gaiff eu cyhoeddi gan yr Uned Gorfforaethol.

139. Dylai'r holl bapurau gael eu cyflwyno mewn fformat clir, cryno gan nodi'r materion, y cyd-destun, a thrafodaeth am yr opsiynau sydd ar gael, y goblygiadau o ran adnoddau, y camau nesaf a'r penderfyniad y mae angen i'r Comisiwn ei wneud.

140. Lle y bo'n briodol, bydd yr Uned Gorfforaethol yn dosbarthu'r papurau a'r agenda drwy'r e-bost un wythnos cyn y cyfarfod. Caiff papurau'r Comisiwn eu cyhoeddi hefyd ar y rhyngrwyd wedi'r cyfarfod heblaw'r rheini sy'n cynnwys gwybodaeth y credir y gallai fod wedi'i hesemptio rhag ei chyhoeddi dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ni ddylid copïo'r rhain na'u cylchredeg heblaw i'r rheini a fydd yn bresennol.

### *Agenda*

141. Gosodir yr agenda ar gyfer pob cyfarfod gan y Prif Weithredwr a'r Clerc drwy ymgynghori â'r Llywydd a, heblaw yn achos cyfarfod arbennig, dylai gynnwys:

- dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod;
- cofnodion y cyfarfod blaenorol;
- materion sy'n codi; a
- phapurau sydd i'w hystyried yn y cyfarfod.

142. Dan amgylchiadau arferol ni fydd y pennawd "Unrhyw Fater Arall" ar yr agenda. Er hynny, os bydd unrhyw Gomisiynydd, cynghorydd annibynnol neu swyddog yn dymuno codi mater brys dan y pennawd hwn, dylid rhoi rhybudd i'r Llywydd o leiaf ddiwrnod ymlaen llaw. Os na fydd hyn yn bosibl rhaid rhoi rhybudd cyn gynted ag sy'n bosibl cyn cychwyn y cyfarfod. Mater i'r Comisiwn yw penderfynu a gaiff materion o'r fath eu trafod ac ar ba bwynt yn y cyfarfod.

### *Cofnodion*

143. Dylai cofnodion y cyfarfod gofnodi:

- dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod;
- Comisiynwyr sy'n bresennol;

- cynghorwyr annibynnol, swyddogion a sylwedyddion sy'n bresennol;
- ymddiheuriadau am absenoldeb;
- cymeradwyo'r cofnodion blaenorol neu unrhyw welliannau iddynt;
- materion sy'n codi o'r cofnodion blaenorol;
- nodyn am unrhyw faterion a ystyriwyd drwy ohebu ers y cyfarfod blaenorol ac unrhyw benderfyniadau a wnaed;
- materion a drafodwyd yn y cyfarfod ac unrhyw benderfyniadau a wnaed ar bob mater;
- cynigion a gwelliannau, os oedd rhai;
- canlyniad y pleidleisio ar unrhyw benderfyniad a wnaed; ac
- unrhyw gamau gweithredu sy'n codi.

144. Rhaid i gofnodion cyfarfodydd gael eu cymeradwyo gan y Comisiwn yn y cyfarfod dilynol a bydd y cofnodion, ar ôl eu cymeradwyo mewn modd priodol, yn cael eu llofnodi'n ffurfiol gan y Cadeirydd.

145. Pan gytunir ar welliant i'r cofnodion rhaid i'r Cadeirydd awdurdodi'r gwelliant i'r cofnod, oni bai fod y cyfarfod yn penderfynu fel arall, a rhaid cytuno arno ar ôl hynny.

146. Cyhoeddir cofnodion cyfarfodydd ar ôl eu cymeradwyo ar wefan y Cynulliad un wythnos ar ôl pob cyfarfod.

### *Penderfyniadau a phleidleisio*

147. Comisiynwyr yw'r unig rai sydd â hawl i bleidleisio. Mae pleidlais gan bob Comisiynydd. Bydd gan Gadeirydd y cyfarfod bleidlais fwrw os bydd y pleidleisiau'n gyfartal.

### *Datgelu buddiant*

148. Rhaid i Gomisiynydd, cynghorydd annibynnol neu swyddog sy'n cymryd rhan ddatgelu unrhyw fuddiant ariannol mewn unrhyw fater sy'n cael ei ystyried mewn cyfarfod. Lle y mae buddiant o'r fath wedi'i

ddatgan rhaid i'r unigolyn sy'n gysylltiedig beidio â chymryd unrhyw ran yn y trafodion a dylai adael y rhan honno o'r cyfarfod.

149. Lle y mae buddiant gan Gomisiynydd neu gynghorydd annibynnol, heblaw un ariannol (e.e. un teuluol), dylid ceisio cyngor ynghylch a ellir ystyried y buddiant yn un arwyddocaol.

150. Caiff Comisiynydd neu gynghorydd annibynnol geisio cyngor gan dîm Gwasanaethau Cyfreithiol y Comisiwn mewn cysylltiad ag unrhyw amgylchiadau penodol y mae'n credu y gallent olygu buddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn mater sydd gerbron cyfarfod. Rhaid cofnodi pob datganiad o fuddiant yn y cofnodion.

### *Cynigion*

151. Lle y caiff cynnig neu argymhelliad ei gynnig rhaid i'r Cadeirydd ofyn am unrhyw welliant neu welliannau. Ar derfyn y ddadl, rhaid i'r Cadeirydd alw am bleidlais.

152. Rhaid pleidleisio ar welliannau gan gymryd y gwelliant diwethaf yn erbyn y gwelliant a oedd yn union o'i flaen. Ar ddiwedd y cyfryw broses rhaid cymryd y gwelliant llwyddiannus yn erbyn y cynnig. Cymerir pleidleisiau drwy ddangos dwylo oni bai fod y cyfarfod yn penderfynu y dylid cynnal pleidlais drwy alw'r gofrestr.

153. Mae angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Comisiynwyr i unrhyw gynigion sydd i'w cyflwyno i'w hystyried gan y Cynulliad.

### *Delio ag eitemau drwy ohebu*

154. Rhaid i unrhyw faterion sydd i'w trafod drwy ohebu, yn ôl disgresiwn y Prif Weithredwr a'r Clerc, fod yn gyfyngedig i faterion:

- brys lle y mae'n amlwg bod angen penderfyniad cyn y cyfarfod nesaf;
- i'w nodi er gwybodaeth;
- y cytunwyd mewn cyfarfod blaenorol i'w trafod drwy ohebu; neu
- lle y mae'n debygol y ceir cytundeb drwy gonsensws heb angen trafodaeth.

155. Pan ddosbarthir papur, dylid nodi arno'n glir erbyn pa ddyddiad y mae angen cael sylwadau. Os na fydd Comisiynydd yn ymateb erbyn y dyddiad cau, cymerir bod hynny i'w ddehongli fel pe bai cydsyniad wedi'i roi i'r cynnig sydd dan ystyriaeth. Bydd yr Uned Gorfforaethol yn ymdrechu i gael consensws ar yr holl bapurau a ddosbarthir drwy ohebu. Bydd papurau o'r fath wedi'u cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Comisiwn fel materion i'w nodi, ac fe'u cyhoeddir ar y rhyngrwyd un wythnos ar ôl y cyfarfod ac eithrio'r rheini sy'n cynnwys gwybodaeth yr ystyrir y gallai fod wedi'i hesemptio rhag ei chyhoeddi dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

156. Os oes consensws o blaid (neu heb fod o blaid) cynnig neu os oes barn fwyafrifol yna rhoddir y penderfyniad hwnnw gerbron y cyfarfod nesaf i'w gadarnhau'n ffurfiol. Fodd bynnag, lle y mae barn fwyafrifol, ond bod Comisiynydd sy'n anghytuno o'r farn bod angen trafod y mater ymhellach yna caiff y pwnc ei ystyried yn y cyfarfod nesaf sydd ar gael. Os yw'n fater o frys sylweddol yna dylid ystyried galw cyfarfod a gynullir yn arbennig i ddatrys y mater (mae mwy o wybodaeth am gyfarfodydd arbennig ym mharagraffau 126-128).

### *Diwygio gweithdrefnau*

157. Caiff y Comisiwn amrywio, diddymu neu ychwanegu at y rheolau gweithdrefnol sydd wedi'u nodi uchod mewn cyfarfod lle y mae rhybudd priodol wedi'i roi.

## Atebolrwydd i'r Cynulliad

158. Mae'r Comisiwn yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am arfer ei swyddogaethau. Arferir yr atebolrwydd hwn mewn amryw o ffyrdd, yn cynnwys cwestiynau i'r Comisiwn i'w hateb ar lafar yn y Cyfarfod Llawn a thrwy ateb ysgrifenedig, craffu gan y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb y Comisiwn, a'r posibilrwydd i Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn gael ei holi gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ar faterion rheoli ariannol (mae mwy o wybodaeth ym mharagraff 172).

159. Lle'r Cynulliad a'i bwyllgorau yw craffu ar stiwardiaeth y Comisiwn a'i fodloni ei hun bod y Comisiwn yn gweithredu'n ddoeth ac yn gyfrifol. Wrth wneud hynny, bydd y Cynulliad yn cadw mewn cof y ffaith bod y disgresiwn o ran y modd i gyflawni'r ddyletswydd o ddarparu'r eiddo, staff a gwasanaethau angenrheidiol i'r Cynulliad wedi'i ymddiried gan y Ddeddf yn y Comisiwn a'i fod yn dod dan drosolwg Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

## *Y Cyfarfod Llawn*

*Cwestiynau llafar i'r Comisiwn*

*(i) Trefniadau cyflwyno*

160. Yn unol â Rheol Sefydlog 7.47 caiff Aelodau'r Cynulliad gyflwyno cwestiynau llafar i'r Comisiwn ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Comisiwn. Rhaid cyflwyno cwestiynau o leiaf bum niwrnod gwaith, ond heb fod yn fwy na deng niwrnod gwaith, cyn eu bod i gael eu hateb.[52] Mae Rheol Sefydlog 7.53 yn datgan na all mwy nag un cwestiwn gael ei gyflwyno gan bob Aelod i'w ateb mewn unrhyw Gyfarfod Llawn. Penderfynir trefn cwestiynau llafar drwy eu cymysgu ar hap yn y Swyddfa Gyflwyno.

*(ii) Trefniadau yn y Cyfarfod Llawn*

161. Rhaid neilltuo amser mewn Cyfarfodydd Llawn i'r Comisiwn ateb cwestiynau llafar o leiaf unwaith, ac am hyd at 30 munud, ym mhob pedair wythnos y mae'r Cynulliad yn cynnal Cyfarfod Llawn.[53] Yn unol â Rheol Sefydlog 7.55, rhaid i'r Llywydd alw'r Aelod sy'n gofyn y cwestiwn i ofyn cwestiwn llafar atodol ac wedyn caiff alw Aelodau eraill i ofyn cwestiynau llafar atodol sy'n gysylltiedig.

162. Yn unol â'r arfer a'r cynsail sydd wedi'u sefydlu, caiff pedair munud eu dyrannu ar gyfer pob cwestiwn i'w ateb. Gellir newid yr amseriad hwn yn ôl disgresiwn y Llywydd. Os na ddeuir at unrhyw gwestiwn llafar, rhaid i'r Aelod gael ateb ysgrifenedig yr un diwrnod y mae'n rhaid ei gyhoeddi yng nghofnod y trafodion.[54] Os oes cwestiynau o natur debyg, caiff y Comisiwn ofyn am eu grwpio i'w hateb. Anfonir ceisiadau am grwpio i Ysgrifenyddiaeth y Siambr a bydd y Llywydd yn penderfynu a ydynt yn ddigon tebyg i'w grwpio cyn y Cyfarfod Llawn lle y byddant yn cael eu hateb. Os caiff dau neu ragor o gwestiynau eu grwpio i'w hateb, bydd y cyfnodau o bedair munud a ddyrennir ar gyfer pob un yn cael eu cyfansymio'n unol â'r dull arferol ar gyfer cwestiynau wedi'u grwpio.

163. Yn ôl arfer a defod, bydd un Comisiynydd yn ateb yr holl gwestiynau bob mis. Bydd pob Comisiynydd yn ateb cwestiynau yn ei dro. Yn gyffredinol, ni fydd y Llywydd yn ateb cwestiynau i'r Comisiwn oherwydd ei ddyletswyddau fel cadeirydd Cyfarfodydd Llawn.

[52] Rheol Sefydlog 7.51
[53] Rheol Sefydlog 7.48(iii)
[54] Rheol Sefydlog 7.57

*Cwestiynau brys i'r Comisiwn*

164. Mae Rheol Sefydlog 7.56 yn darparu ar gyfer gofyn cwestiynau brys i Gomisiynwyr er na wnaed cais am hyn eto. Yn unol â Rheolau Sefydlog, bernir bod cwestiwn yn un brys os bydd y Llywydd wedi'i fodloni bod y cwestiwn o bwys cyhoeddus brys.[55] Disgwylir fel arfer y bydd unrhyw Aelod sy'n dymuno gwneud cais am gwestiwn brys yn cyflwyno'r cwestiwn o leiaf ddwy awr cyn y Cyfarfod Llawn perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfio â Rheol Sefydlog 7.56(i), sy'n datgan bod rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw o ddwy awr o leiaf cyn gofyn y cwestiwn i'r Llywydd ac i'r Comisiwn. Mae'r trefniadau hyn yn debyg i'r rheini ar gyfer cwestiynau brys i'r Llywodraeth.

165. Gellir cymryd cwestiynau brys yn ystod Cyfarfodydd Llawn ar unrhyw adeg a benderfynir gan y Llywydd; yr arfer yw eu cymryd ar ddiwedd y cyfnod sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer cwestiynau llafar.[56] Arfer a defod y Trydydd Cynulliad fu caniatáu o leiaf ddeg munud ar gyfer pob cwestiwn brys ac mae cynsail ar gyfer grwpio cwestiynau brys os ydynt yn ddigon tebyg i'w gilydd.[57]

*Dadleuon brys ynghylch y Comisiwn*

166. Caniateir dadleuon brys ynghylch cyfrifoldebau'r Comisiwn gan Reolau Sefydlog er na wnaed cais am hyn eto ychwaith. Mae'r weithdrefn ar gyfer cynnal dadl frys wedi'i disgrifio yn Rheolau Sefydlog 7.58–7.60.

*Datganiadau gan y Comisiwn*

167. Yn unol â Rheol Sefydlog 7.10(x) caniateir i'r Comisiwn wneud datganiadau am unrhyw fater sydd o fewn ei gyfrifoldebau yn y Cyfarfod Llawn. Byddai datganiadau o'r math hwn yn cael eu hystyried yn fusnes y Cynulliad ac fel arfer dim ond ar ddydd Mercher y gellid eu cymryd yn unol â Rheol Sefydlog 7.8(ii). Mae Rheol Sefydlog 7.15 yn caniatáu cymryd datganiadau o'r math hwn mewn Cyfarfod Llawn heb rybudd.

---

[55] Rheol Sefydlog 7.56(ii)
[56] Rheol Sefydlog 7.56
[57] Lle y mae dau neu ragor o gwestiynau brys wedi'u grwpio, bydd y cyfnodau o 10 munud a ddyrennir ar gyfer pob cwestiwn yn cael eu cyfansymio'n unol â'r dull arferol ar gyfer cwestiynau llafar wedi'u grwpio.

*Dadleuon ynghylch y Comisiwn*

*(i) Dadleuon Byr*

168. Yn unol â Rheol Sefydlog 7.64, gellir cynnal Dadl Fer yn y Cyfarfod Llawn unwaith ym mhob wythnos y mae'r Cynulliad yn eistedd. Ar hyn o bryd mae'r Ddadl Fer yn cael ei hamserlennu fel yr eitem olaf o fusnes y Cynulliad ar brynhawn Mercher. Ei phwrpas yw cynnig cyfle i Aelodau'r meinciau cefn ddewis pwnc ar gyfer dadl na fydd yn para mwy na 30 munud.[58]

169. Penderfynir ar yr Aelod a fydd yn gyfrifol am y Ddadl Fer drwy falot (a gynhelir gan Glercod yn y Swyddfa Gyflwyno ar ran y Llywydd).[59] Rhaid i'r Aelod llwyddiannus hysbysu'r Llywydd am y pwnc y mae wedi'i ddewis o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y mae i fod i gael ei drafod.[60]

170. Mae Rheol Sefydlog 7.66(ii) yn datgan y "caiff" aelod o'r Comisiwn ymateb i ddadl fer os yw o fewn cylch gwaith y Comisiwn. Mewn modd tebyg i'r arfer ar gyfer Llywodraeth Cymru, nid oes gofyniad i aelod o'r Comisiwn ymateb, er y byddai'n gwneud hynny fel arfer. Hyd yn hyn, ni fu Dadl Fer y barnwyd ei bod yn dod o fewn cyfrifoldebau'r Comisiwn.

*(ii) Dadleuon am Adroddiad Blynyddol y Comisiwn*

171. Mae Rheol Sefydlog 7.61(ii) yn mynnu y bydd amser yn cael ei neilltuo ym mhob blwyddyn Cynulliad ar gyfer dadl am Adroddiad Blynyddol y Comisiwn.

### ***Pwyllgorau***

172. Dan Ran 5 o Ddeddf 2006 a Rheol Sefydlog 27, mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynhyrchu amcangyfrif blynyddol o'i incwm a'i dreuliau. Bydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad yn ystyried hyn a bydd dadl arno wedyn yn y Cyfarfod Llawn cyn iddo gael ei ymgorffori'n ffurfiol yn y cynnig cyllideb blynyddol a gyflwynir dan Adran 125 o'r Ddeddf. Fel rhan o'i ystyriaeth caiff y Pwyllgor gymryd tystiolaeth gan un neu ragor o Gomisiynwyr ac uwch swyddogion.

---

[58] Rheol Sefydlog 7.64
[59] Ibid
[60] Rheol Sefydlog 7.65

173. Caiff y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gymryd tystiolaeth gan swyddogion cyfrifyddu ac eraill ac adrodd i'r Cynulliad mewn cysylltiad â chyfrifon ac adroddiadau sydd wedi'u gosod gerbron y Cynulliad gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol ac felly ceir gofyn i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, fel ei Brif Swyddog Cyfrifyddu, roi tystiolaeth ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfrifon y Comisiwn neu unrhyw adroddiad sy'n ymwneud â'r Comisiwn a osodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

### *Mecanweithiau atebolrwydd ysgrifenedig*

*Cwestiynau ysgrifenedig i'r Comisiwn*

174. Yn unol â Rheol Sefydlog 9.1(ii) caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau ar gyfer ateb ysgrifenedig gan y Comisiwn ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Comisiwn. Rhaid cyflwyno cwestiwn o'r math hwn o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y mae i fod i gael ei ateb.[61] Rhaid cyhoeddi atebion i gwestiynau yng nghofnod y trafodion yn unol â Rheol Sefydlog 9.5.

*Datganiadau ysgrifenedig gan y Comisiwn*

175. Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn darparu'r gallu i'r Comisiwn wneud datganiad ysgrifenedig am unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Comisiwn. Cyhoeddir datganiadau ysgrifenedig gan y Comisiwn yng nghofnod y trafodion.[62]

### *Cynigion cyfarwyddo*

176. Mae Adran 27(6) o'r Ddeddf a Rheol Sefydlog 3.10 yn caniatáu i'r Cynulliad roi cyfarwyddiadau arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn er mwyn neu mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r Comisiwn. Byddai cynigion o'r math hwn yn mynnu bod y Comisiwn yn cymryd camau penodol er na allent fynnu bod y Comisiwn yn gweithredu:

- yn anghyfreithlon (er enghraifft, mewn ffordd sy'n groes i Gyfraith Ewrop); neu

---

[61] Rheol Sefydlog 9.3
[62] Rheol Sefydlog 9.8

- os nad yw'n bosibl cydymffurfio â'r cyfarwyddyd (er enghraifft, os nad yw'r cyfarwyddyd yn glir neu os nad yw'n dod o fewn cylch gwaith y Comisiwn).

*Rôl y Pwyllgor Busnes*

177. Yn unol â Rheol Sefydlog 3.10, mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am adrodd ynghylch a ddylid neilltuo amser i drafod cynnig cyfarwyddo. Mewn cyferbyniad â rhai mathau eraill o gynigion (e.e. cynigion o ddiffyg hyder dan Reolau Sefydlog 7.42 a 7.43) nid yw Rheolau Sefydlog yn mynnu y bydd amser yn cael ei neilltuo i drafod cynnig o'r fath. Felly nid yw'r Pwyllgor Busnes dan unrhyw orfodaeth i ddyrannu amser i ystyried cynnig o'r math hwn os nad yw'n credu ei bod yn briodol defnyddio amser y Cyfarfod Llawn i'r diben hwnnw.

178. Os rhoddir amser i ystyried cynnig cyfarwyddo, gellid cynnal dadl arno a byddai'n cael ei gyfrif yn fusnes y Cynulliad.[63]

*Egwyddorion ar gyfer cynigion cyfarwyddo*

179. Wrth benderfynu a ddyrennir amser i ystyried cynnig cyfarwyddo yn y Cyfarfod Llawn, bydd y Pwyllgor Busnes yn cymryd y ffactorau canlynol i ystyriaeth:

- maint y gefnogaeth i'r cynnig gan Aelodau wrth ei gyflwyno;

- dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae dyraniad clir o swyddogaethau rhwng y Cynulliad a'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn gorff cyfreithiol ar wahân, sydd dan ddyletswydd statudol i ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau sy'n angenrheidiol at ddibenion y Cynulliad, yn hytrach na phwyllgor o'r Cynulliad. Rôl y Cynulliad a'i bwyllgorau yw craffu ar stiwardiaeth y Comisiwn. Felly dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried y graddau y mae cynnig yn gorchymyn gwneud penderfyniadau gweithredol neu gyllidebol penodol gan y Comisiwn a pha mor briodol yw defnyddio amser y Cyfarfod Llawn i'w drafod;

---

[63] Er nad oes cyfeiriad penodol at gynigion cyfarwyddo mewn Rheolau Sefydlog, dehongliad y Llywydd yw y dylid eu cymryd fel busnes y Cynulliad fel rhai sy'n cyfateb i'r rheini sydd wedi'u rhestru yn Rheol Sefydlog 7.8(ii).

- y llwybrau eraill sydd ar gael i Aelodau ddylanwadu ar y Comisiwn e.e. cwestiynau i'r Comisiwn, craffu gan y Pwyllgor Cyllid ar gynigion cyllideb y Comisiwn, cysylltu â Chomisiynwyr unigol etc; a
- rhaid i effaith cynnig cyfarwyddo fod yn glir a rhaid bod heb amheuaeth ynghylch gallu cyfreithiol ac ymarferol y Comisiwn neu ei Swyddog Cyfrifyddu i gydymffurfio.[64]

**Pwerau deddfwriaethol**

180. Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn rhoi'r pŵer i'r Cynulliad ddeddfu mewn meysydd lle y mae ganddo gymhwysedd deddfwriaethol. Dan y trefniadau presennol, gelwir deddfwriaeth o'r math hwn yn "Fesur Cynulliad".

***Mesurau'r Cynulliad***

181. Mae Rheol Sefydlog 23 yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn gyflwyno Mesur arfaethedig.[65] Rhaid i gynigion o'r fath fod yn gysylltiedig â swyddogaethau'r Comisiwn.[66] Bydd y Comisiwn yn awdurdodi un o'i Gomisiynwyr i fod yn Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig, yn unol â Rheolau Sefydlog.[67] Bydd yr Aelod hwn yn gyfrifol am fynd â'r Mesur drwy'r Cynulliad yn y ffordd arferol.[68]

***Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol***

182. Nid oes darpariaeth mewn Rheolau Sefydlog i'r Comisiwn gynnig Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol.

---

[64] Papur y Pwyllgor Busnes BC(3)24-09(p5)
[65] Mae Llywodraeth Cymru, un o Bwyllgorau'r Cynulliad ac Aelodau'r meinciau cefn hefyd yn cael cynnig Mesurau dan Reol Sefydlog 23.
[66] Rheol Sefydlog 23.96
[67] Rheol Sefydlog 23.6
[68] Mae mwy o wybodaeth am graffu ar Fesurau'r Cynulliad ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm

## Atodiad A – Egwyddorion llywodraethu Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a darpariaethau ategol

### Rhagymadrodd

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddorion llywodraethu a'r darpariaethau ategol canlynol. Gyda'i gilydd, bwriedir iddynt helpu i feithrin diwylliant gweithredu derbyniol drwy'r corff a fydd, o ganlyniad, yn helpu'r broses o reoli'r prif risgiau busnes.

Mae'r egwyddorion a'r darpariaethau ategol yn gyson â'r Cod Arferion Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol[69] ac fe'u defnyddir i lywio gwaith y Comisiwn a'r uwch reolwyr.

### Egwyddor 1: Atebolrwydd

A. Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol ac yn atebol i'r Cynulliad am arfer swyddogaethau statudol y Comisiwn. Maent dan ddyletswydd i'r Cynulliad i roi cyfrif, ac i gael eu dwyn i gyfrif, am holl bolisïau, penderfyniadau a gweithredoedd y corff.

B. Dan y Comisiynwyr, mae'r Prif Weithredwr, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, hefyd yn bersonol gyfrifol ac yn atebol i'r Cynulliad am y modd y caiff Comisiwn y Cynulliad ei reoli a'i drefnu, gan gynnwys y defnydd o arian cyhoeddus a stiwardiaeth ar ei asedau.

### Darpariaethau ategol

a) Rhaid i'r Comisiynwyr weithredu o fewn eu cylch gwaith statudol fel y'i nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Dan y Ddeddf honno, caiff y Cynulliad roi cyfarwyddiadau arbennig neu gyffredinol er mwyn neu mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r Comisiwn[70].

b) Lle y mae'r Comisiynwyr yn dirprwyo awdurdod i swyddogion (drwy'r Prif Weithredwr), dylid cael diffiniad ysgrifenedig clir o sut y caiff y cyfrifoldebau hynny eu dirprwyo. Mae'r penderfyniadau a wneir gan ddefnyddio pwerau wedi'u dirprwyo o'r fath yn dal yn benderfyniadau y mae'r Comisiynwyr yn atebol amdanynt i'r Cynulliad.

c) Y Prif Weithredwr yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn [71]. Dylai'r Swyddog Cyfrifyddu sefydlu a chofnodi'n glir sut y caiff cyfrifoldebau eu dyrannu ymysg swyddogion yn y corff, ond mae'n dal yn bersonol gyfrifol ac atebol i'r Cynulliad am y canlynol:

---

[69] Trysorlys EM – Gorffennaf 2005
[70] Adran 27(6) o Ddeddf 2006
[71] Adran 138(1) o Ddeddf 2006

- priodoldeb a rheoleidd-dra;
- gweinyddu pwyllog a darbodus;
- osgoi gwastraff a gormodedd;
- defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithlon ac effeithiol; a
- threfnu, staffio a rheoli Comisiwn y Cynulliad.

d) Mae gofyn hefyd i'r Swyddog Cyfrifyddu, o ran rhannu arian cyhoeddus, ystyried gwerth am arian o safbwynt Cronfa Gyfunol Cymru a'r Trysorlys ehangach.

**Egwyddor 2: Y Comisiynwyr a'r uwch reolwyr**

A. Mae'r Comisiynwyr yn gyfrifol ar y cyd am osod y fframwaith strategol i'r corff ac am gadw golwg ar ei berfformiad.

B. Mae'r uwch reolwyr, dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn gyfrifol am gynghori'r Comisiynwyr, ac am arwain a rheoli'r corff o fewn y fframwaith strategol a osodwyd gan y Comisiynwyr ac am gymryd perchnogaeth ar ei berfformiad.

**Darpariaethau ategol**

a) Dylai'r Comisiynwyr wneud y canlynol:

- gosod nodau ac amcanion strategol y corff;
- cytuno ar safonau a gwerthoedd y corff;
- goruchwylio'r broses o newid, hybu arloesedd, a mentergarwch, lle bo hynny'n addas, i wella gallu'r corff i gyflawni; a
- chymryd rhan yn y broses o asesu a rheoli risg.

b) Dylai'r uwch reolwyr wneud y canlynol:

- cynghori ar sut y caiff adnoddau ariannol a dynol eu dyrannu i gyflawni'r nodau a'r amcanion a osodwyd;
- rheoli adnoddau'r corff, monitro'r cyflawni ar amcanion perfformiad;
- cynnal system dryloyw o reolaethau darbodus ac effeithiol (gan gynnwys rheolaethau mewnol); ac

- asesu a rheoli risg.

c) Dylai Comisiynwyr wneud penderfyniadau'n gorfforaethol ac yn wrthrychol, gan weithredu er budd y cyhoedd yn unol ag egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan.

ch) Dylai Comisiynwyr gwrdd yn ddigon rheolaidd i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylent gytuno ar restr ffurfiol o faterion a gedwir i'w penderfynu ganddynt hwy, h.y. y rheini na ddylid eu dirprwyo i swyddogion.

d) Dylid cofnodi penderfyniadau'r Comisiynwyr a sicrhau eu bod ar gael i reolwyr y corff. Os yw'r Comisiynwyr yn penderfynu dirprwyo materion penodol i'w hystyried gan bwyllgor, dylai Comisiynydd gadeirio pob un o'r pwyllgorau hynny. Dylai'r Comisiynwyr sicrhau eu bod yn cael adborth digonol ar waith unrhyw bwyllgorau o'r fath ac yn gallu ystyried eu penderfyniadau'n ffurfiol.

dd) Lle mae gan Gomisiynydd bryderon na ellir eu datrys ynghylch sut y caiff y corff ei redeg neu weithred arfaethedig, dylai sicrhau bod y pryderon wedi'u cofnodi yn y cofnodion.

e) Dylid penodi i'r Bwrdd Gweithredol ar sail teilyngdod ac yn erbyn meini prawf gwrthrychol. Wrth ymuno, dylai aelodau newydd o'r Bwrdd gael hyfforddiant cynefino addas ynghylch cyfrifoldebau a gweithdrefnau'r Comisiwn.

f) Dylai'r Comisiynwyr eu bodloni eu hunain eu bod yn cael eu cyflenwi'n amserol â gwybodaeth sydd ar ffurf ac o ansawdd sy'n addas i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd gwybodaeth o'r fath yn dibynnu ar y materion y maent wedi penderfynu y dylid eu cadw i'w penderfynu ganddynt hwy, ond dylai gynnwys adroddiadau am y canlynol:

- gwybodaeth cyfrifyddu rheoli misol yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau ariannol a dynol yn ogystal â rhagolygon o fewn blwyddyn rheolaidd o'r alldro disgwyliedig yn erbyn cyllidebau ariannol o wariant ar adnoddau a chyfalaf, o incwm ac o wybodaeth berthnasol o'r fantolen;

- cynnydd o ran allbynnau a chanlyniadau (targedau perfformiad); ac

- adnabod a rheoli risg.

ff) Dylai'r Comisiynwyr a'r Bwrdd Gweithredol gael cymorth gan Uned Gorfforaethol bwrpasol, a ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfio â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

g) Dylai fod yn ofynnol i Gomisiynwyr hysbysu'r Uned Gorfforaethol am unrhyw faterion y gallent fod â gwrthdaro buddiannau yn eu cylch a'u cofrestru gyda'r uned. Dylai'r Comisiynwyr ystyried ar y cyd sut y dylent drafod mater a allai achosi gwrthdaro i Gomisiynydd unigol.

ng) Dylai'r Comisiynwyr gynnal gwerthusiad blynyddol o berfformiad y corff. Fel rhan o'i adroddiad blynyddol [72], dylai'r Comisiwn gynnwys gwybodaeth am ei ddull o weithredu, gan gynnwys datganiad lefel uchel am y mathau o benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Comisiynwyr a'r rhai y ceir eu dirprwyo. Dylai'r adroddiad hwn gyfeirio at fodolaeth, cyfrifoldebau a gwaith unrhyw bwyllgorau.

**Egwyddor 3: Sgiliau**

A. Dylai uwch reolwyr y Comisiwn fod â chydbwysedd o sgiliau a phrofiad sy'n addas ar gyfer cyfarwyddo'r busnes o drefnu.

**Darpariaethau ategol**

a) Dylai'r uwch reolwyr roi arweinyddiaeth gorfforaethol i'r corff cyfan, ac ni ddylent fod yn gasgliad o unigolion sy'n gyfrifol am wahanol rannau o'r busnes yn unig.

b) Dylai'r uwch reolwyr gynnwys pobl sydd â chydbwysedd priodol o sgiliau o ran:

- arweinyddiaeth a rheoli newid;
- cyfathrebu;
- cyflawni gweithredol, a rhagoriaeth prosesau; a
- gwasanaethau corfforaethol, gan gynnwys rheoli adnoddau dynol, systemau a thechnoleg gwybodaeth, a chyfathrebu.

c) Dylid dynodi un o'r uwch reolwyr yn Gyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn, y dylai ei gyfrifoldebau gynnwys cynghori'r Comisiynwyr a'r Prif Weithredwr ynghylch rheolaeth ariannol ar weithrediadau'r corff.

ch) Gan adeiladu ar eu profiad, dylai uwch reolwyr ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau eu bod yn cynnal y lefel angenrheidiol o sgiliau ac arbenigedd, fel unigolion ac fel grŵp.

---

[72] Yn ofynnol dan baragraff 9 o atodlen 2 i Ddeddf 2006

d) Dylai'r uwch reolwyr ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth a datblygu doniau. Dylai hyn gynnwys y modd i ddenu doniau o'r tu allan i'r corff er mwyn cael profiad a safbwyntiau ehangach.

**Egwyddor 4: Cyngor annibynnol**
A. Dylai'r Comisiwn gael cymorth gan gynghorwyr annibynnol sy'n gweithredu mewn cymhwyster anweithredol i sicrhau ei fod ef a'r uwch reolwyr yn cael eu cynorthwyo a'u herio'n gadarnhaol wrth gyflawni eu rôl.

**Darpariaethau ategol**
a) Mae'n bwysig sicrhau bod y Comisiwn a'i uwch reolwyr yn gallu elwa o ystod eang o brofiad i'w helpu wrth gyflawni swyddogaethau statudol y Comisiwn. Yr awgrym yn ôl yr arfer da presennol yw y dylai bwrdd llywodraethu corff gynnwys cydbwysedd rhesymol o aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol annibynnol. Dim ond Aelodau'r Cynulliad sy'n gymwys i'w dewis yn Gomisiynwyr, felly nid yw'n gyfreithiol bosibl penodi neu gyfethol rhai nad ydynt yn weithredwyr fel hyn. Er hynny, byddai'n bosibl i'r Comisiwn sicrhau gwasanaethau cynghorwyr annibynnol i gyflawni rôl o'r fath[73].

b) Dylai'r Comisiynwyr eu bodloni eu hunain bod y cynghorwyr yn annibynnol o ran cymeriad a barn ac nad oes perthnasoedd arwyddocaol a allai effeithio ar eu barn.

c) Dylai'r cynghorwyr annibynnol fod yn barod i gynnig her gadarnhaol ym mhob rhan o fusnes y Comisiwn gyda'r bwriad o sicrhau craffu ar bob agwedd ar strategaeth a chyflawni o safbwynt effeithioldeb ac effeithlonrwydd. Yn benodol, dylent:

- ymwneud â'r broses o fonitro perfformiad a chynnydd y corff, gan gynnwys y defnydd o adnoddau dynol ac ariannol; a

- chynnal trosolwg beirniadol ar reolaethau a gweithdrefnau ariannol y corff ar gyfer asesu a rheoli risg, gan gymhwyso eu profiad ehangach.

ch) Dylid penodi cynghorwyr annibynnol drwy broses agored a thryloyw. Wrth eu penodi dylent:

- gael cylch gorchwyl ysgrifenedig sy'n cynnwys manyleb eu rôl a'u telerau penodi; a

---

[73] Wrth gwrs, ni fyddai unrhyw hawliau pleidleisio gan y cynghorwyr annibynnol yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

- chael rhaglen gynefino sy’n cynnwys nid yn unig y corff, ond hefyd yr amgylchedd gweithredol cyfan.

d) Dylai’r Prif Weithredwr gynnal cyfarfodydd o bryd i’w gilydd gyda’r cynghorwyr annibynnol heb fod swyddogion eraill yn bresennol. Caiff y cynghorwyr gynnig y dylent gael cyfle i gwrdd â’r Comisiynwyr o bryd i’w gilydd, heb fod swyddogion yn bresennol, i drafod gwaith y Comisiwn.

dd) Dylai’r cynghorwyr sicrhau bod trefniadau ar waith fel bod modd i staff godi pryderon addas y tu allan i’r gadwyn rheoli llinell arferol.

**Egwyddor 5: Rheolaethau mewnol**

A. Mae’r Comisiynwyr a’r Swyddog Cyfrifyddu’n gyfrifol am sicrhau bod trefniadau effeithiol wedi’u gwneud i roi sicrwydd o ran rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol. Yn hyn o beth, byddant yn cael cyngor annibynnol gan y canlynol:

- Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, dan gadeiryddiaeth cynghorydd annibynnol; a

- gwasanaeth archwilio mewnol sy’n gweithredu’n unol ag egwyddorion Safonau Archwilio Mewnol Llywodraethu.

**Darpariaethau ategol**

a) Dylai’r Comisiynwyr a’r Swyddog Cyfrifyddu eu sicrhau eu hunain ynghylch effeithioldeb rheolaeth fewnol y corff a’i broses rheoli risg. Bydd hyn yn golygu bod angen:

- fframwaith priodol o reolaethau darbodus ac effeithiol, fel y gellir asesu a rheoli risgiau a’u cymryd mewn modd darbodus;

- atebolrwydd clir am reoli risgiau; a

- sicrhau bod rheolwyr yn meddu ar y sgiliau a’r canllawiau perthnasol.

b) Dylai’r Comisiynwyr sefydlu Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, sydd ag o leiaf dri aelod, a gaiff ei gadeirio gan gynghorydd annibynnol. Dylai o leiaf un o aelodau’r pwyllgor fod â phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Dylid sefydlu’r pwyllgor a’i

weithredu'n unol â'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio[74].

c) Dylid sicrhau bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gael i'r cyhoedd. Dylai adroddiad blynyddol y Comisiwn gyfeirio at waith y Pwyllgor hwnnw.

ch) Dylid penodi'r archwilwyr mewnol drwy broses agored a thryloyw, yn dilyn cynhyrchu asesiad o anghenion archwilio a chylch gorchwyl.

[74] Cyhoeddwyd gan Drysorlys EM – Mawrth 2007

## Atodiad B – Rheolau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch Rhoddion a Lletygarwch

### Pwrpas

1. Wrth gyflawni ein dyletswyddau, gallai staff gael cynnig rhoddion, gwobrwyon neu letygarwch. Yr arfer gorau yw osgoi derbyn buddion o'r fath a allai achosi amheuaeth o wrthdaro rhwng ein dyletswyddau swyddogol a'n buddiannau preifat, neu amharu ar ein gallu personol i farnu neu ein huniondeb. Mae hyn yn cynnwys rhoddion, lletygarwch neu fuddion a gynigir i aelodau teulu'r cyflogai yn hytrach nag i'r cyflogai.

2. Er hynny, cydnabyddir hefyd y byddai gwrthod rhodd neu letygarwch mewn amgylchiadau penodol yn gallu tramgwyddo. Mae'r weithdrefn hon yn egluro beth i'w wneud mewn amgylchiadau o'r fath.

3. Hefyd, mae rheolau sy'n ymwneud â *rhoi* rhoddion a lletygarwch gan staff y Cynulliad wedi'u nodi yn y weithdrefn.

4. Dylai aelodau staff gofio ei fod yn **drosedd** dan Ddeddf Atal Llygredigaeth 1906 i unrhyw was cyhoeddus (a hynny'n cynnwys staff sydd wedi'u cyflogi gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru) dderbyn drwy lygredigaeth yn eu cymhwyster swyddogol unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth fel cymhelliad neu wobr am wneud neu ymatal rhag gwneud unrhyw beth neu ddangos ffafriaeth neu anffafriaeth at unrhyw berson. Yn ogystal â hynny, dan Ddeddf Atal Llygredigaeth 1906 bydd unrhyw arian, rhodd neu gydnabyddiaeth a gaiff gwas cyhoeddus gan berson neu gorff sy'n dal neu sy'n ceisio cael contract gan lywodraeth yn cael ei ystyried gan y llys yn rhywbeth a gafwyd drwy lygredigaeth os nad oes prawf i'r gwrthwyneb.

5. Mae **Cod Ymddygiad y Staff** yn datgan: os ceir eich bod wedi derbyn neu wedi methu â chofrestru cael arian, rhoddion, lletygarwch, budd neu unrhyw gydnabyddiaeth arall mewn amgylchiadau lle y mae'n gwrthdaro â'ch dyletswyddau swyddogol, ystyrir bod hyn yn gamymddwyn difrifol.

### Gweithdrefn

### Cael rhoddion/gwobrwyon

6. Ni ddylai aelodau staff gael budd personol o roddion, heblaw'r rheini sydd o natur ddibwys fel eitemau i'w rhoi ar ben desg sydd heb werth sylweddol (e.e. dyddiaduron, pennau neu galendrau hyrwyddo). Nid oes angen rhoi gwybod am eitemau dibwys o'r fath na'u cofnodi.

7. Dylid gwrthod rhoddion/gwobrwyon o werth uwch, neu rai sy'n rhoi budd personol, er enghraifft, tocynnau i sioe neu gêm, neu botel o win/wisgi etc, os oes modd – ond os byddai hynny'n tramgwyddo neu'n achosi camddealltwriaeth dylid ildio'r rhodd i Uned Gorfforaethol y Comisiwn: i'w defnyddio i hybu digwyddiadau elusennol neu fewnol; i'w defnyddio o fewn y tîm sydd wedi'i chael; neu i'w chynnig yn deg i'r holl staff. Bydd yr Uned Gorfforaethol yn cofnodi rhoddion o'r fath, a'r defnydd ohonynt, yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

**Cael lletygarwch**

8. Caiff aelodau staff dderbyn ambell gynnig o letygarwch cymesur a phriodol ond rhaid iddynt ystyried a yw'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

- byddai ei dderbyn yn hyrwyddo nodau'r Cynulliad;
- mae lefel y lletygarwch yn rhesymol yn yr amgylchiadau;
- mae wedi'i gynnig yn agored; ac
- ni fyddai modd iddo gael ei ddehongli fel unrhyw fath o gymhelliad, neu amharu ar eich gallu personol i farnu neu ar eich uniondeb, ac ni fydd yn eich rhoi dan unrhyw rwymedigaeth i'r rheini sy'n ei gynnig.

9. Nid oes angen rhoi gwybod am letygarwch o werth isel fel lluniaeth ysgafn, cinio i drafod gwaith, neu fwyd bwffe yn ystod cynhadledd neu seminar, na'i gofnodi.

10. Gellir derbyn lletygarwch o werth uwch, fel pryd o fwyd mewn gwesty moethus, os yw'n unol â pharagraff 8, ond rhaid i'r pennaeth Gwasanaeth gytuno ar hynny a rhaid ei gofnodi yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

11. Ni ddylid byth geisio lletygarwch, a dylid gwrthod yn gwrtais unrhyw gynigion sydd o natur anghymesur neu o werth uchel iawn a rhoi gwybod amdanynt i'r Pennaeth Gwasanaeth, y mae'n rhaid iddo eu datgan drwy'r ymarferiad datganiadau misol a arweinir gan yr Uned Gorfforaethol. Mewn amgylchiadau lle y byddai gwrthod lletygarwch yn gallu tramgwyddo, dylai'r Pennaeth Gwasanaeth neu Gyfarwyddwr, fel y bo'n briodol, ystyried a ddylid ei dderbyn. Yma eto, rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth ddatgan hyn drwy'r ymarferiad datganiadau misol a arweinir gan yr Uned Gorfforaethol.

**Rhoi rhoddion**

12. Bydd achlysuron pan yw'n briodol rhoi rhodd i urddasolion neu swyddogion sydd ar ymweliad i ddathlu eu hymweliad. Gallai hyn fod yn gymwys hefyd i ymweliadau â lleoedd eraill, fel Seneddau eraill. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid cael rhoddion fel arfer o siop y Cynulliad, a rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth gytuno arnynt ymlaen llaw os ydynt o natur anarferol neu o gost uwch. Dylid bod yn ofalus i osgoi unrhyw feirniadaeth bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol. Mae cyfrifoldeb personol gan y Prif Weithredwr a'r Clerc, fel Swyddog Cyfrifyddu, i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau Comisiwn y Cynulliad.

**Rhoi lletygarwch**

13. Mae darpariaeth ym mhob Cyllideb Gwasanaeth ar gyfer treuliau Lletygarwch. Fel arfer, mae hyn ar gael ar gyfer lluniaeth mewn cyfarfodydd mewnol lle y bo'n briodol, yn enwedig os yw partïon o'r tu allan yn bresennol. Bydd achlysuron hefyd pan yw'n briodol cynnig cinio neu swper i urddasolion neu swyddogion sydd ar ymweliad fel rhan o'u hymweliad. Y bwriad wrth wneud hyn yw helpu i feithrin perthnasoedd gweithio da a chael y fantais fwyaf posibl o'r ymweliad. Mae hyn yn gymwys yn yr un modd i ymweliadau â lleoedd eraill, fel ymweliadau â chyrff eraill. Nid oes angen rhoi gwybod am letygarwch o'r math hwn na'i gofnodi yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ond dylai fod yn rhesymol a gallu dal dŵr yng nghyd-destun craffu cyhoeddus – dylid bod yn ofalus i osgoi unrhyw feirniadaeth bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol. Mae cyfrifoldeb personol gan y Prif Weithredwr a'r Clerc, fel Swyddog Cyfrifyddu, i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau Comisiwn y Cynulliad.

14. Byddai angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gyfarwyddwr ar gyfer unrhyw senarios nad ydynt o fewn y diffiniad uchod, a dylid eu cofnodi yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch sy'n cael ei chadw gan yr Uned Gorfforaethol.

**Rhoddion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

15. Mae Atodlen 2, paragraff 4(3) i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael yr effaith bod unrhyw rodd y mynegwyd ei bod i gael ei rhoi i'r Cynulliad i gael ei thrin fel rhodd i Gomisiwn y Cynulliad. Rhaid ymgynghori â'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol ill dau ynghylch unrhyw roddion o'r fath.

**Termau/Cysylltiadau â gweithdrefnau eraill**

16. Mae **rhodd** yn rhywbeth a roddir yn wirfoddol heb ragamodau. Caiff y term ei ddefnyddio hefyd am asedau dros ben/diangen o werth isel a roddir gan y Cynulliad i gyrff eraill neu unigolion ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol.

17. Mae **lletygarwch** yn cyfeirio at y modd y cawn ein trin gan ein gwesteiwyr, neu'r modd y byddwn ni'n trin pobl eraill – er enghraifft, drwy gael lluniaeth, cinio, lle i aros dros nos – y cwbl wedi'i rhoi'n rhydd, heb godi tâl.

18. Mae **gwobr** yn rhywbeth a roddir i gydnabod gwasanaeth, ymdrech neu gyflawniad.

19. Mae **budd** yn cyfeirio at fantais neu elw a gaiff cyflogai sy'n codi o benderfyniadau y mae wedi'u gwneud neu wedi dylanwadu arnynt.

20. Mae canllawiau ynghylch derbyn rhoddion a lletygarwch gan y **Llywydd a'r Dirprwy Lywydd** yn Atodiad B i'r cyfarwyddyd hwn.

21. Mae *Rheol Sefydlog 31 "Buddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau"* yn nodi'r gofynion sy'n ymwneud (ymysg buddiannau eraill) â rhoddion a lletygarwch a gaiff **Aelodau'r Cynulliad**. Y Swyddfa Gyflwyno sy'n cadw'r *Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau* sy'n ofynnol dan y Rheol Sefydlog hon.

22. Mae *Cod Ymddygiad y Staff* yn nodi safonau ymddygiad sy'n ofynnol i **aelodau staff** Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn cyfeirio'n benodol at dderbyn arian, rhoddion, gwobrwyon a lletygarwch.

23. Mae'r Uned Gorfforaethol yn cadw **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch** ar gyfer staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, lle y mae'n rhaid cofnodi rhoddion a lletygarwch adroddadwy a gynigir i gyflogeion y Cynulliad ac a roddir ganddynt. Caiff y Gofrestr ei diweddaru unwaith y mis o leiaf – fel arfer drwy'r ymarferiad datganiadau misol a arweinir gan yr Uned Gorfforaethol.

**Cofnodion**

24. Rhaid cadw'r holl gofnodion a dogfennau sy'n ymwneud â Rhoddion a Lletygarwch am gyfnod o 6 blynedd, yn dilyn y flwyddyn ariannol pan ddigwyddodd.

**Atodiad B: Canllawiau ynghylch derbyn rhoddion a lletygarwch gan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd**

1. Mae'n rheol sefydledig a chydnabyddedig na ddylai unrhyw was cyhoeddus neu berson sy'n dal swydd gyhoeddus dderbyn rhoddion, lletygarwch neu wasanaethau oddi wrth unrhyw un a fyddai, neu a allai ymddangos ei fod, yn ei roi dan rwymedigaeth. Mae'r un egwyddor yn gymwys os cynigir rhoddion etc i aelod o'i deulu.

2. Mae hyn yn fater y mae'n rhaid ei adael i synnwyr da'r Llywydd/Dirprwy Lywydd gan mwyaf. Ond os oes ansicrwydd neu anhawster dylid ceisio cyfarwyddyd gan Bennaeth yr Uned Gorfforaethol. Mae'r un rheolau'n gymwys mewn cysylltiad â derbyn rhoddion oddi wrth roddwyr y mae'r Llywydd/Dirprwy Lywydd yn delio'n swyddogol â hwy yn y wlad hon a rhoddwyr o wledydd tramor, sef:

2.2. Dylid rhoi gwybod ym mhob achos am gymryd rhoddion a lletygarwch i Bennaeth yr Uned Gorfforaethol;

2.2.1 Caiff y derbyniwr gadw rhoddion o werth bach (sef, ar hyn o bryd, hyd at 0.5% o gyflog blynyddol crynswth sylfaenol y Cynulliad i Aelod o'r Cynulliad - £231 ym mis Mehefin 2007);

2.2.2 Dylai rhoddion o werth uwch gael eu trosglwyddo i'r Uned Gorfforaethol i gael gwared arnynt, ac eithrio:

(i) Y caiff y derbyniwr brynu'r rhodd i'w chadw'n bersonol am ei werth mewn arian parod (wedi'i ostwng 0.5% o gyflog blynyddol crynswth sylfaenol y Cynulliad i Aelod o'r Cynulliad).

(ii) Os bydd y derbyniwr yn dymuno ad-dalu i'r rhoddwr drwy roi a thalu am rodd gyfwerth, ceir cadw'r rhodd a gafwyd

(iii) Os yw'n briodol, ceir arddangos y rhodd neu ei defnyddio mewn adeilad a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

(iv) Os byddai cael gwared ar y rhodd yn peri tramgwydd neu os gallai fod yn briodol i'r derbyniwr ddefnyddio neu arddangos y rhodd ar ryw achlysur yn y dyfodol o ran cwrteisi, yna dylai'r Uned Gorfforaethol gadw'r rhodd i'r diben hwn am gyfnod o hyd at bum mlynedd;

2.2.3 Dylid datgelu rhoddion a gafwyd mewn gwlad dramor sy'n werth mwy na'r lwfansau arferol i deithwyr wrth eu mewnforio i'r Tollau Tramor a Chartref a fydd yn rhoi gwybod am unrhyw atebolrwydd i dalu toll neu dreth. Yn gyffredinol, os yw'r Llywydd/Dirprwy Lywydd yn dymuno cadw rhodd bydd yn atebol am dalu unrhyw dreth neu doll y gallai ei dwyn yn ei sgîl.

3. Mae rhoddion a roddir i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn rhinwedd eu swydd yn dod yn eiddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid oes angen eu datgan yn y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau. Mae rhoddion a roddir i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd fel Aelodau Cynulliad yn dod dan y rheolau sy'n gysylltiedig â'r Gofrestr o Fuddiannau Aelodau'r Cynulliad.

4. Bydd yr Uned Gorfforaethol yn cyhoeddi rhestr flynyddol o roddion a gafodd y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol a brisiwyd ar fwy na 0.5% o gyflog blynyddol crynswth sylfaenol y Cynulliad i Aelod o'r Cynulliad. Mae'r rhestr yn rhoi manylion am werth y rhoddion ac a gadwyd hwy gan y Cynulliad neu eu prynu gan y Llywydd/Dirprwy Lywydd.

5. Os bydd y Llywydd/Dirprwy Lywydd yn derbyn lletygarwch ar raddfa neu o ffynhonnell y gellid credu'n rhesymol ei fod yn debygol o ddylanwadu ar benderfynu neu weithredu, dylid ei ddatgan wrth Bennaeth yr Uned Gorfforaethol. Os ceir lletygarwch mewn digwyddiad lle y mae'r Llywydd/Dirprwy Lywydd yn cyflawni rôl gynrychioladol e.e. cyflwyno neu draddodi araith, ni fyddai hynny'n cael ei ddatgan fel arfer. Fodd bynnag, rydym wedi penderfynu cofnodi lletygarwch o'r fath nes caiff y gweithdrefnau eu hadolygu.

**Darparu lletygarwch gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd**

6. Telir am ddarparu lletygarwch gan y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd o arian cyhoeddus. Bydd y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn darparu lletygarwch ar gyfer cyrff o'r tu allan, urddasolion ar ymweliad a digwyddiadau allweddol lle y credir ei bod yn briodol gwneud darpariaeth o'r fath. Dylid bod yn ofalus i osgoi unrhyw feirniadaeth bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol. Mae cyfrifoldeb personol gan y Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau

**Rhan 2: Trin a chael gwared ar roddion**

7. Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn disgrifio'r polisi a'r weithdrefn sydd i'w dilyn ar gyfer trin a chael gwared ar roddion swyddogol sy'n cael eu dal ar hyn o bryd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Rhoddion Newydd**

8. Pan gânt eu hysbysu bod y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd wedi cael rhoddion neu letygarwch, bydd eu Cynorthwywyr Personol yn diweddaru'r gofrestr rhoddion a lletygarwch. Mae ffurflen i'w defnyddio gan unrhyw un sy'n cyd-deithio â'r Llywydd/Dirprwy Lywydd yn Atodiad C.

**Rhoddion Presennol**

9. Bydd gan y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd wahanol niferoedd o roddion yn eu hystafelloedd. Bydd rhai wedi'u harddangos (lluniau, ffotograffau, addurniadau, etc) tra gallai eraill fod wedi'u storio o'r golwg. Efallai y bydd Cynorthwywyr Personol yn dal rhai rhoddion ar ran y Llywydd/Dirprwy Lywydd. Mewn rhai achosion gallai rhoddion fod wedi'u storio neu eu trosglwyddo i un arall o adeiladau'r Cynulliad Cenedlaethol i'w harddangos.

**Archwilio**

10. Cyfrifir casgliadau rhoddion y Llywydd/Dirprwy Lywydd yn ystod toriad yr haf bob blwyddyn drwy ddiweddaru'r gofrestr cyn gosod y daflen cofnod ar y ffeil gofrestredig. Cynhelir yr un ymarferiad yn y cyfnod cyn yr etholiad bob pedair blynedd ond rhoddir cyfle hefyd i'r Llywydd/Dirprwy Lywydd gadw neu brynu'r eitemau hynny y mae'n eu dymuno, pa un a fydd yn dal yn Llywydd/Dirprwy Lywydd ar ôl yr etholiad neu beidio.

11. Rhoddir cyfle i'r rheini sy'n dychwelyd fel Llywydd/Dirprwy Lywydd (i'r un swyddfa neu i swyddfa wahanol) gael yn eu hystafell y rhoddion hynny y maent yn eu dewis o'u daliad eu hunain neu o ddaliad eu rhagflaenydd (nad ydynt wedi'u cadw gan ddeiliad blaenorol y swydd).

**Cael Gwared ar Roddion Diangen**

12. Bydd y llwybr ar gyfer cael gwared yn barhaol ar hen roddion yn dibynnu ar natur a gwerth y rhodd. Ym mhob achos mae angen cael gwared arnynt mewn modd priodol a sensitif. Ni ellir llunio rheolau pendant ynghylch cael gwared ar roddion, ond yr opsiynau canlynol yw'r prif rai y dylid eu hystyried:

- yn achos rhoddion o werth isel a allai fod o ddefnydd neu o werth i eraill (e.e. ffotograffau, paentiadau, addurniadau, llyfrau, etc) gellir un ai eu rhoi'n uniongyrchol i elusennau lleol, siopau elusennol, neu gyrff y gwyddys y gallant eu defnyddio (e.e. rhoi llyfrau i ysgolion lleol). Fel arall, gellid eu harwerthu'n fewnol o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoi'r elw i elusen;

- yn achos rhoddion o werth masnachol sylweddol (mae'r swm yn fater i'w farnu gennym ni) ceir eu harwerthu a rhoi'r arian a godir i elusen o ddewis y Cynulliad. Sylwer mai rhoi'r arian i elusen yw'r dewis symlaf o safbwynt

gweinyddol gan ei fod yn osgoi'r angen, pan gedwir arian, i gyfrif am TAW;

- Os yw'n amlwg nad oes fawr o werth i neb yn y rhoddion yna dylid cael gwared arnynt drwy ddulliau arferol ar gyfer ailgylchu neu gael gwared ar sbwriel.

13. Dylid bod yn ofalus ym mhob achos cyn cael gwared ar roddion i dynnu unrhyw bethau sy'n personoli rhoddion ac felly'n dangos eu statws, e.e. platiau enw wedi'u hengrafu.

13. Argymhellir mai dim ond ar ôl storio rhoddion am 5 mlynedd y dylid cael gwared arnynt. Er mwyn sicrhau na fydd rhoddion diangen yn cymryd lle gwerthfawr ar gyfer storio, dylid cynnal adolygiad ar gyfer cael gwared ar roddion bob blwyddyn.

## Atodiad C – Saith egwyddor bywyd cyhoeddus (‘egwyddorion Nolan’)

**Anhunanoldeb**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, gael budd ariannol neu fudd o fath arall.

**Uniondeb**

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain dan rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth o fath arall i gyrff neu unigolion allanol a allai geisio dylanwadu ar y ffordd y maent yn cyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd**

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

**Atebolrwydd**

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i’r cyhoedd am eu penderfyniadau a’u gweithredoedd a rhaid iddynt oddef pa bynnag graffu sy’n briodol i’w swydd.

**Bod yn Agored**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored ag sy’n bosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar wybodaeth oni bai fod angen clir am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

**Gonestrwydd**

Mae’n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy’n berthnasol i’w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy’n diogelu lles y cyhoedd.

**Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu’r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.